

Adroddiad Blynyddol

Trosolwg a Chraffu

Cyngor Sir Ceredigion 2015/16

Cyflwyniad

Beth yw Trosolwg a Chraffu?

Darparwyd trefniadau gweithrediaeth yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 a welodd yr hen system bwyllgorau o lywodraeth leol yn cael ei disodli gan system lle mae gweithrediaeth fach, wedi'i diffinio'n glir (y Cabinet) yn gyfrifol am gynnig arweinyddiaeth a gwneud penderfyniadau o fewn fframwaith a gytunwyd gan y cyngor llawn; a lle mae pwyllgorau trosolwg a chraffu newydd yn adolygu perfformiad y weithrediaeth ac yn ceisio gwelliant a datblygiad parhaus.

Cyn yr Etholiadau Lleol ym mis Mai 2012, adolygodd Aelodau'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu strwythur Trosolwg a Chraffu'r Cyngor gan ystyried nifer o ffactorau a oedd yn effeithio ar y ffordd yr oedd y Cyngor yn gweithredu ac yn darparu gwasanaethau gan gynnwys argymhellion Llythyr Asesu Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru Awst 2011. Roedd yr hen strwythur yn cynnwys un Pwyllgor Cydlynu a chwech o Bwyllgorau Pwnc Trosolwg a Chraffu a oedd yn cyfateb i chwe phortffolio'r Cabinet. Mae'r strwythur newydd yn cynnwys pump o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu thematig, sef:

- Cymunedau Ffyniannus
- Cymunedau Iachach
- Cymunedau sy'n Dysgu
- Adnoddau Corfforaethol
- Cydlynu

Mae *Canllawiau Statudol i'r Cyngorau Sir a'r Cyngorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru ar Drefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen (2006)* yn nodi bod pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn rhan hanfodol ac annatod o drefniadau gweithrediaeth. O dan adran 21 o'r Ddeddf, rhoddir pwerau adolygu a chraffu eang iddynt ynghyd â'r gallu i gyflwyno adroddiadau ac argymhellion ar unrhyw faterion sy'n berthnasol i'r ardal a'i thrigolion. Swyddogaeth y cyngorwyr sy'n trosolygu ac yn archwilio yw:

- dal y weithrediaeth yn atebol am arfer swyddogaethau'r weithrediaeth yn effeithlon –yn arbennig perfformiad y weithrediaeth o'i fesur yn erbyn y safonau, yr amcanion a'r targedau a nodir yn y polisiau a'r cynlluniau y mae'n eu gweithredu;
- helpu i wella ac i ddatblygu polisiau'r cyngor drwy bwysu a mesur a ydynt yn cyrraedd yr amcanion a nodwyd, a yw'r polisiau hynny a'r ffordd y maent yn cael eu gweithredu yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau'r cymunedau lleol a thrwy gyflwyno adroddiadau ac argymhellion i'r weithrediaeth neu i'r cyngor llawn;
- adolygu materion sy'n effeithio ar ardal yr awdurdod neu ei thrigolion a chyflwyno adroddiadau arnynt; ac
- edrych a yw'r systemau y mae'r weithrediaeth wedi'u sefydlu i gyflwyno'i swyddogaethau yn gadarn ac yn cael eu parchu'n iawn.

Yn ychwanegol, byddant yn gallu adolygu sut mae'r swyddogaethau anweithredol yn cael eu cyflawni a chyflwyno adroddiadau ar faterion o ddiddordeb lleol mwy cyffredinol. Gallai hyn gael ei gyplysu â phŵer yr awdurdod o dan Ran 1 o'r Ddeddf i hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, drwy nodi meysydd y gallai'r weithrediaeth roi sylw iddynt drwy ddefnyddio'r pŵer hwn.

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gyhoeddwyd yn fwy diweddar yn nodi bod rôl glir i swyddogaeth graffu awdurdod yn ei brosesau gwella: fel rhan o'i rôl yn galw penderfynwyr a llunwyr polisi i gyfrif yn lleol, a'i rôl yn datblygu polisiau. Dylai hyn ymestyn i:

- graffu ar y prosesau y mae awdurdod wedi mynd trwyddynt wrth gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i wella;
- craffu ar addasrwydd y sefydliad i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i wella;
- craffu ar y prosesau y mae awdurdod wedi mynd trwyddynt wrth ddewis ei amcanion gwella, gan gynnwys adolygu lefel yr ymgysylltu â rhanddeiliaid;
- craffu ar fonitro'r cynnydd wrth gyflenwi amcanion gwella'r awdurdod;
- hyrwyddo arloesi trwy herio'r drefn ac annog ffyrdd gwahanol o feddwl ac opsiynau cyflenwi.

Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu

Cyfarfu'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar saith achlysur yn ystod blwyddyn 2015/2016.

Ymhlith yr eitemau safonol a ystyrir ym mhob Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu y mae diweddariad ar ddatblygiadau yn y maes Craffu a diweddariad gan y Cadeiryddion ar waith eu Pwyllgorau.

Materion allweddol a ystyriwyd.

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau rheolaidd ynglŷn â materion trosolwg a chraffu gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf o gyfarfodydd Rhwydwaith Swyddogion Trosolwg a Chraffu Cymru a'r wybodaeth ddiweddaraf am Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a materion llywodraethu.

Ystyriodd y Pwyllgor ddatblygiad y Blaenraglenni Gwaith Trosolwg a Chraffu ar gyfer 2015/16. Rôl y Pwyllgor Cydlynu yw goruchwylio'r Blaenraglenni Gwaith gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau corfforaethol, yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol, wedi'u cydlynu i osgoi dyblygu, yn realistig ac yn hylaw o fewn yr adnoddau sydd ar gael ac yn ychwanegu gwerth. Cytunodd pob Pwyllgor y byddai'n ystyried eu Rhaglenni Gwaith unigol eu hunain yn unol â'r canllawiau yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad ynghylch Perfformiad y Cynllun Gwella ar gyfer 2014/2015. Cyflwynodd Russell Hughes-Pickering, Pennaeth Perfformiad a Gwelliant, yr adroddiad gan esbonio'r hyn oedd ynddo a hysbysu'r Aelodau fod yr Adroddiad Perfformiad yn cymharu'r perfformiad â'r camau gweithredu a nodwyd ar gyfer 2014-2015. Mae hyn yn gyfle i'r Cyngor asesu pa mor dda ai peidio y mae wedi ymgymryd â chyflawni'r uchelgeisiau a nodwyd yn y Cynllun Gwella. Mae'r Adroddiad Perfformiad felly yn darparu gwybodaeth ar ba mor dda y mae'r Cyngor wedi llwyddo i reoli'r amcanion, y targedau a'r camau gweithredu a restrwyd yng Nghynllun Gwella 2014-2015. Bu i'r Aelodau ganmol y Swyddogion ar gynnwys yr adroddiad ac yn benodol ei gynllun.

Croesawyd Carys Lewis Morgan, Swyddog yr Iaith Gymraeg a Swyddog Polisi Cydraddoldeb, ac Alun Williams, Pennaeth Cefnogi Polisi i gyfarfod y Pwyllgor ar 1 Hydref 2015 er mwyn cyflwyno diweddariad blynyddol 2014-15 Grŵp Gweithredol Dyfodol Dwyieithog y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Cyflwynodd Carys Lewis Morgan gynnwys yr adroddiad. Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor y dylid nodi'r cardiau adrodd blynyddol ynghylch gwaith y Grŵp Gweithredol Dyfodol Dwyieithog.

Ystyriwyd Adroddiad 'Ceredigion i Bawb' ar gyfer 2014/15. Amlinellwyd y canlynol i'r Aelodau mewn cyflwyniad *power point*:-

- Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ceredigion - Cefndir

- Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ceredigion - Strwythur
- Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ceredigion
- Y Cynllun Integredig Sengl - Ceredigion i Bawb
- Ceredigion i Bawb – Blaenoriaethau
- Fframwaith Monitro Perfformiad
- Strwythur Adrodd Blynyddol
- Crynodeb Gweithredol
- Dadansoddiad o'r Crynodeb Gweithredol

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd:

1. y dylai sylwadau'r bobl ifanc gael eu coladu a'u mynegi mewn adroddiadau yn y dyfodol;
2. nodi'r angen i ddiwygio'r dangosydd canlynol ynghylch byw'n annibynnol o wyrdd i goch: "Roedd % y boblogaeth a oedd yn darparu gofal di-dâl yng nghyfrifiad 2011 yn 11.3% , sy'n uwch na'r ffigwr o 10.4% yn 2001";
3. nodi y bwriedir cael gafael ar yr ystadegau diweddaraf am fod cymharu data o 2008 i 2015 yn yr adroddiad yn gamarweiniol; a;
4. nodi adroddiad a gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol drwy'r Grwpiau Gweithredol.

Roedd adroddiadau diweddarau chwarterol yn parhau i gael eu derbyn ynglŷn â'r cynnydd a wneid o ran adeiladu'r ysgolion newydd yn Llandysul a Drefach. Trefnwyd bod Aelodau'r Pwyllgor yn ymweld ag Ysgol newydd Llandysul (Ysgol Bro Teifi) ar 25 Tachwedd 2015. Cafodd yr Aelodau daith lawn o amgylch y safle ac roedd y gwaith ar y pryd hwnnw wedi creu argraff fawr arnynt. Ar ôl hynny, cynhaliwyd cyfarfod yn Ysgol Dyffryn Teifi gyda chynrychiolwyr y Cynghorau Cymuned Lleol ac roedd cynrychiolwyr Ysgol Dyffryn Teifi yn bresennol. Rhoddwyd y cyfle i'r disgyblion leisio eu barn a rhoi eu sylwadau am ddatblygiad Ysgol Bro Teifi. Teimlai pob un o'r disgyblion iddynt chwarae rhan flaenllaw yn y datblygiad.

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ynglŷn â'r opsiynau ynghylch gwneud arbedion ar gyllidebau'r gwasanaethau yn 2015/2016 gan gyflwyno adroddiad yn amlinellu ei argymhellion gerbron y Cabinet.

Gwnaeth y Pwyllgor barhau i fonitro polisi a gweithgareddau'r Awdurdod ynghylch Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 yn rheolaidd.

Hefyd, gwnaeth y Pwyllgor barhau i fonitro Cynllun Gweithredu Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed Ceredigion yn rheolaidd.

Roedd y Pwyllgor yn parhau i dderbyn adroddiadau bob hanner blwyddyn ar Chwythu'r Chwiban a chroesawodd y Cadeirydd Elin Prysor, y Swyddog Monitro i'r cyfarfod ym mis Ionawr 2016 i gyflwyno'r diweddariad hanner blwyddyn ar Chwythu'r Chwiban. Roedd Elin Prysor wedi rhoi adroddiad am hyn yn y cyfarfod ar 17 Gorffennaf 2015 ac ar yr adeg honno, nodwyd y canlynol fel meysydd ar gyfer eu datblygu ymhellach:

1. Newidiadau pellach i Bolisi Chwythu Chwiban y Cyngor; a
2. Hyfforddiant ychwanegol gyda phwyslais penodol ar sut y dylai rheolwyr glustnodi datganiadau chwythu chwiban a sut y dylid ymdrin â hwy.

Dywedodd Elin Prysor i'r Polisi Chwythu Chwiban Corfforaethol gael ei ddiweddarau'n ddiweddar a bod ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn ei gylch ar y pryd hwnnw. Cadarnhaodd y byddai hyfforddiant pellach yn cael ei gynnal yn y dyfodol agos gyda phwyslais penodol ar sut y dylai reolwyr ymdrin â datganiadau chwythu chwiban. Yna bu iddi amlygu'r newidiadau a awgrymwyd yn yr adroddiad gyda chyfeiriad penodol at awgrym y dylai'r Swyddog Monitro gadw cofrestr / cronfa ddata ganolog o'r holl achosion/ atgyfeiriadau / cyhuddiadau sy'n gysylltiedig â chwythu'r chwiban. Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor y byddai cronfa ddata ganolog yn syniad ardderchog. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd y dylai'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu barhau i dderbyn diweddiariad bob 6 mis. Cytunwyd y byddai'r Swyddog Monitro yn e-bostio fersiwn diwygiedig o'r polisi at Aelodau'r Pwyllgor pan fyddai ar gael.

Croesawodd y Cadeirydd Carys Morgan, y Swyddog Iaith a Chydraddoldeb yn ogystal ag Alun Williams, Pennaeth Cefnogi Polisi i'r cyfarfod ar 25 Chwefror 2016 i gyflwyno Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020. Bu i Carys Morgan hysbysu Aelodau'r Pwyllgor fod gan bob Awdurdod Lleol yng Nghymru, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus 2011, ddyletswydd statudol i greu a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016-2020 erbyn Ebrill 2016. Bu i Gyngor Sir Ceredigion gyhoeddi ei gynllun cydraddoldeb cyntaf yn 2011. Esboniodd Carys Morgan bwrpas y cynllun a'r nodweddion gwarchoddedig. Bu iddi hefyd hysbysu Aelodau'r Pwyllgor fod gofyn i'r Awdurdod casglu sylwadau a barn y defnyddwyr gwasanaeth cyn datblygu a gosod amcanion cydraddoldeb. Er mwyn gwneud hyn bu i'r Awdurdod gysylltu â sefydliadau allweddol sy'n gweithredu yn Nyfed Powys (sy'n cynnwys Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys) er mwyn ymgynghori ar y cyd. Cynhaliwyd digwyddiad Cydraddoldeb Ceredigion ar 8 Hydref 2015, lle'r oedd cynrychiolaeth eang o'r grwpiau nodweddion gwarchoddedig yn bresennol. O ganlyniad i'r ymgynghori nodwyd 6 amcan blaenoriaeth ar gyfer Ceredigion, gyda nifer o gamau gweithredu yn sail i hynny. Nodwyd swyddogion arweiniol o'r meysydd gwasanaeth priodol i weithredu'r camau hynny, a chaiff adroddiad cynnydd ei ddatblygu'n flynyddol. Dyma'r amcanion cydraddoldeb arfaethedig:

1. Cyflogwr Cyfle Cyfartal
2. Meithrin Perthynas Dda
3. Ymgysylltu a chyfranogi
4. Mynediad i wasanaeth
5. Addysg deg ac addysg gynhwysol; a,
6. Pharch ac urddas.

Cadarnhawyd y byddai'r Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol yn adolygu ac yn monitro'r modd y caiff y cynllun ei gyflwyno yn erbyn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Caiff adroddiad blynyddol sy'n crynhoi'r datblygiadau yn erbyn pob un o'r amcanion ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu i'w ystyried ac yna i'r Cabinet er mwyn ei gymeradwyo. Hefyd dywedodd Carys Morgan wrth Aelodau'r Pwyllgor fod dau fforwm wedi'i sefydlu a oedd yn agored i'r cyhoedd. Y ddau yma yw Fforwm Anabledd Ceredigion a Lleisiau Cydraddoldeb Ceredigion. Dywedodd Mrs Morgan fod croeso cynnes i'r Aelodau fynd i'r fforymau hyn a chyfrannu atynt. Yn dilyn cyflwyniad diddorol iawn, diolchodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd y Cyngor sydd â chyfrifoldeb dros Bolisi, Iaith a Chydraddoldeb i Carys Morgan am ei holl waith caled wrth baratoi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ogystal â'r holl Swyddogion eraill a fu'n rhan o'r gwaith. Yn dilyn trafodaeth, roedd o ddi-ddordeb i Aelodau'r Pwyllgor nodi fod 62% o boblogaeth Ceredigion yn byw y tu allan i brif drefi Ceredigion. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yn y dyfodol yn derbyn diweddariad blynyddol ar y datblygiadau yn erbyn pob un o'r amcanion o ran y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol. Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor y dylid argymhell i'r Cabinet gymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020, yn amodol ar wneud mân newidiadau.

Croesawyd Eirian Williams, Rheolwr Perfformiad a Phrosiectau, i'r cyfarfod ar 25 Chwefror er mwyn cyflwyno Cynllun Gwella drafft 2016-17, cyn i'r Cynllun gael ei gyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor ar gyfer ei gymeradwyo'n derfynol. Dechreuwyd ar yr ymgyngori ar 29 Ionawr 2016 ac roedd y cyfnod hwnnw yn dod i ben am 5pm y prynhawn hwnnw (25 Chwefror 2016). Byddai'r adborth yn cael ei ystyried cyn cytuno ar yr Amcanion terfynol a'u cyflwyno i'r Cabinet ar 15 Mawrth 2016. Byddai Cynllun Gwella drafft terfynol 2016-17 yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ei gymeradwyo ar 24 Mawrth 2016. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd argymhell y dylai'r Cabinet gymeradwyo'r Cynllun, yn amodol ar wneud mân newidiadau.

Croesawyd Siwan Davies, Uwch Swyddog Cyfathrebu i'r cyfarfod ym mis Ebrill er mwyn cyflwyno adroddiad ar y Strategaeth Gyfathrebu a Phrotocol y Wasg a'r Cyfryngau. Croesawyd hefyd Alun Williams, Pennaeth Cefnogi Polisi. Soniodd Siwan Davies am bwysigrwydd cyfathrebu i Aelodau'r Pwyllgor yn ogystal â phwysigrwydd cynnal perthynas gref gyda rhanddeiliaid, a diweddarwyd y Strategaeth Gyfathrebu i adlewyrchu hyn. Datblygwyd Protocol y Wasg a'r Cyfryngau er mwyn cynorthwyo'r Tîm Cyfathrebu i sefydlu prosesau a sicrhau cysondeb, canllawiau a gweithdrefnau, yn unol â'r Strategaeth Gorfforaethol. Awgrymodd Aelod o'r Pwyllgor y byddai hyfforddiant neu sesiwn gweithdy'n ddefnyddiol i'r Aelodau yn y dyfodol agos. Bu i'r Swyddogion a oedd yn bresennol annog yr Aelodau i gysylltu â Swyddfa'r Wasg am gyngor a gwybodaeth lle bynnag y bo hynny'n bosib. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd argymhell i'r Cabinet y dylid cymeradwyo a mabwysiadu'r Strategaeth Gyfathrebu ddiwygiedig. Bu i Aelodau'r Pwyllgor hefyd groesawu Protocol y Wasg a'r Cyfryngau,

gan bwysleisio pa mor bwysig ydoedd bod yr Aelodau yn derbyn hyfforddiant yn y dyfodol agos.

Bu i'r Cadeirydd groesawu Steffan Gruffudd, Swyddog Prosiect Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion i'r cyfarfod, gan groesawu eto Alun Williams, Pennaeth Cefnogi Polisi, i gyflwyno Strategaeth Brwydro yn erbyn Tlodi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion 2016-2018. Ym mis Ebrill 2014, argymhellwyd gan Is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol y dylid datblygu Strategaeth Tlodi ar gyfer Ceredigion. Roedd hyn er mwyn cyflawni gofyniad statudol Ceredigion i greu Strategaeth Tlodi Plant a oedd wedi'i gyflawni ers 2011 fel Nod Craidd 7 Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Bu i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol gytuno i'r argymhelliad gan ddirprwyo'r dasg i'r Is-grŵp Tlodi. Er mwyn gwneud y gorau o'r dogfennau perthnasol, penderfynodd Is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol y dylid oedi datblygu'r Strategaeth hyd nes y byddai newidiadau wedi ei wneud i Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015. Byddai Strategaeth Brwydro yn erbyn Tlodi Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ceredigion yn nodi'r weledigaeth ar gyfer Ceredigion a'r blaenoriaethau a gytunwyd er mwyn lleddfu effaith tlodi yn y Sir. Fe'i datblygwyd gan Is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol gan gynnwys y partneriaid canlynol; Cyngor Sir Ceredigion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Iechyd Cyhoeddus Cymru, CAVO, a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Roedd y Strategaeth yn nodi'r sefyllfa gyfredol o ran lleihau effaith tlodi, yn enwedig yng nghyd-destun gwledig, yn ogystal â chydabod y prif heriau i Geredigion drwy ddefnyddio dadansoddiad o grynodedb ystadegau Ardal Lleol Llywodraeth Cymru. Byddai'r Strategaeth yn gosod pa waith y byddai'r Cyngor a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sef yr hen Fwrdd Gwasanaethau Lleol yn ei wneud i amlinellu'r heriau i Geredigion. Bu i Alun Williams hysbysu Aelodau'r Pwyllgor ei fod ef a'r tîm wedi gweithio'n agos gyda'r Cynghorydd Gill Hopley, Cadeirydd y Cyngor ar y pryd hwnnw sef Hyrwyddwr Trechu Tlodi Cyngor Sir Ceredigion. Yn dilyn cwestiwn cadarnhaodd Alun Williams fod y Tîm Tai Diwygio Lles wedi sicrhau canlyniadau gwych yn yr wythfed flaenoriaeth o'r deg a restrwyd yn y Strategaeth sef: Gwneud y gorau o'r budd-daliadau sydd ar gael i bobl hŷn a grwpiau eraill sy'n agored i niwed, wrth gynorthwyo a chyfeirio pobl at yr hyn sydd hawl ganddynt ei dderbyn. Awgrymwyd y dylai'r tîm gael ei wahodd i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn y dyfodol er mwyn darparu trosolwg o'i waith a byddai'r wybodaeth hon wedyn yn cael ei hadrodd yn yr adroddiad blynyddol nesaf. Yn dilyn trafodaeth, argymhellwyd gan Aelodau'r Pwyllgor y dylai'r Cabinet gymeradwyo Strategaeth Brwydro yn erbyn Tlodi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion 2016-2018, yn amodol ar wneud mân newidiadau teipio. Cytunwyd y byddai Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yn derbyn diweddariad bob blwyddyn o ran y cynnydd a wneir o ran y blaenoriaethau yma.

Daeth Lisa Evans, y Swyddog Safonau a Chefnogi Craffu i'r cyfarfod ym mis Ebrill i gyflwyno Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Trosolwg a Chraffu Ceredigion i'r

Aelodau ei ystyried. Dywedodd Lisa Evans wrth Aelodau'r Pwyllgor pan fyddai'r Cyngor wedi cytuno â'r protocol y byddai cyhoedduswydd yn cael ei roi iddo drwy ddatganiad i'r wasg ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Mynegwyd pryder ynglŷn â'r uchafswm amser o 5 munud a roddir ar gyfer pob siaradwr mewn cyfarfodydd Pwyllgorau. Dywedodd y Swyddog Safonau a Chraffu y byddai gan Gadeirydd y Pwyllgor yr hawl yn gyfan gwbl i reoli materion o'r fath fel y byddai'n gweld orau. Pwysleisiwyd hefyd y byddai'r Swyddogion Craffu wrth law i gynnig cyngor a chefnogaeth. Roedd hefyd yn bwysig cofio y byddai'r Protocol ar brawf am y flwyddyn gyntaf ac yna byddai'n cael ei adolygu ar ôl y cyfnod hwnnw. Roedd yr Aelodau o'r farn ei bod yn bwysig sicrhau bod y cyhoedd yn sylweddoli nad yw'n bosib i Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu wneud penderfyniadau, ac na all Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ond gwneud argymhellion i'r Cabinet. Rôl y Cadeirydd perthnasol yw gwneud hyn yn glir yng nghyfarfodydd y Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd argymhell y dylai'r Protocol gael ei gymeradwyo gan y Cyngor.

Materion Trosedd ac Anhrefn

Daeth Adranau 19 ac 20, Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 ynghyd â Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn (Trosolwg a Chraffu) 2009 i rym ar 1 Hydref 2009.

Roedd y rhain yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sefydlu:

- 'Pwyllgor craffu trosedd ac anhrefn' a fyddai'n craffu ar waith Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion a'r cyrff sy'n aelodau (y Cyngor, Heddlu Dyfed Powys, Panel Heddlu a Throsedd Dyfed Powys, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a Bwrdd Iechyd Hywel Dda, sef yr awdurdodau cyfrifol) wrth gyflawni eu swyddogaethau o ran diogelwch cymunedol,
- Gweithdrefn i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, y bartneriaeth a'r cyrff sy'n aelodau ei dilyn wrth ymdrin â Chynghorwyr yn Galw am Weithredu (yng nghyswllt materion sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol).

Gwnaeth Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu presennol y Cyngor ymgymryd â'r cyfrifoldebau dros faterion trosedd ac anhrefn.

Materion Trosedd ac Anhrefn a gwaith Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion

Yn wreiddiol, cafodd y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol eu creu gan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 i ddatblygu a gweithredu strategaethau i leihau trosedd ac anhrefn. Bwriad Partneriaeth Ceredigion yw 'gweithio gydag unigolion, mudiadau a chymunedau i adeiladu cymdeithas ddiogel, deg a goddefgar i'r sawl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Cheredigion'. Yn ogystal â chynrychiolwyr yr awdurdodau cyfrifol, mae'r Bartneriaeth hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o Wasanaeth Troseddau Ieuenctid Ceredigion, Ymddiriedolaeth Prawf Dyfed-Powys, y Tîm Iechyd Cyhoeddus

Lleol, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion, Prifysgol Aberystwyth, y Cydlynnydd Comisiynu Camddefnyddio Sylweddau a'r Rheolwr Diogelwch Cymunedol.

Materion allweddol a ystyriwyd

Ystyriwyd yr Adroddiad am Aseiad Strategol Troseddau ac Anhrefn Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion 2015/16. Cyflwynwyd yr adroddiad yma i'r pyllgor er mwyn hysbysu'r Aelodau o'r wybodaeth a ddarparwyd o ran materion Troseddau ac Anhrefn yng Ngheredigion i Fwrdd Gwasanaethau Lleol Ceredigion, Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys; a Swyddog Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys. Dywedodd y Rheolwr Diogelwch Cymunedol ac Argyfyngau Sifil mai nod yr Aseiad oedd darparu gwybodaeth a dealltwriaeth o broblemau diogelwch cymunedol fydd yn sail i alluogi'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i wneud y canlynol:-

1. deall y patrymau, y tueddiadau a'r newidiadau sy'n ymwneud â Throsedd ac Anhrefn a Chamddefnyddio Sylweddau;
2. gosod blaenoriaethau clir a chadarn;
3. datblygu gweithgarwch sy'n seiliedig ar wybodaeth ddibynadwy ac sy'n diwallu anghenion y gymuned leol;
4. defnyddio adnoddau yn effeithiol a chynnig gwerth am arian;
5. cynnal adolygiadau blynyddol a chynllunio gweithgareddau yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o'r problemau a'r blaenoriaethau.

Dywedwyd bod yr aseiad hefyd wedi'i defnyddio er mwyn darparu'r Bartneriaeth â dealltwriaeth gref o ran gwybodaeth sy'n 'seiliedig ar dystiolaeth' fydd yn sail i Gynllun Integredig Sengl Ceredigion, y Cynllun Heddlu a Throseddu Rhanbarthol a chynlluniau a mentrau perthnasol eraill. Bu i'r Aelodau hefyd dderbyn diweddariad am y sefyllfa gyfredol o ran darparu Teledu Cylch Cyfyng yn y Sir a chawsant wybod bod yr holl offer perthnasol wedi ei ddatgysylltu.

Gwnaeth yr Aelodau barhau i dderbyn diweddariadau rheolaidd ynglŷn â Diogelwch Cymunedol yn ystod y flwyddyn adrodd.

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar dri achlysur ar ddeg yn ystod blwyddyn 2015/2016.

Materion allweddol a ystyriwyd.

Ar ddechrau blwyddyn y Cyngor, ystyriwyd datblygiad y Flaenraglen Waith Trosolwg a Chraffu ar gyfer 2015/2016. Cafodd y Flaenraglen Waith ei monitro a'i diweddarau ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor fel eitem sefydlog ar bob agenda.

Yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf, ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor yr Adolygiad o'r Prosiect Codi a Chario mewn Gofal. Ar ôl i'r Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach hefyd ystyried hyn, cafodd adroddiad ei gyflwyno i'r Cabinet a oedd yn cynnwys argymhelliad bod Aelodau'r Pwyllgor yn ymweld â Chanolfan Byw'n Annibynnol Ceredigion i gael gweld sut oedd yr offer newydd sydd ar gael yno yn gweithio. Yn sgil hynny, trefnwyd ymweliad ar 14 Mai 2015 ac roedd yr Aelodau yn teimlo bod yr ymweliad hwn yn fuddiol iawn iddyn nhw ddeall yr hyn sydd ar gael i'w hetholwyr pan fydd angen cyngor arnynt.

Gwnaeth y Cyngor symud ymlaen gyda rhaglen uchelgeisiol o wella'r modd y cyflwynir gwasanaethau mwy effeithlon ac effeithiol wrth sicrhau arbedion o hyd at £25 miliwn dros y tair blynedd nesaf. Er mwyn cynorthwyo â chyflwyno'r gyllideb eleni, roedd y Cyngor yn gweithio gyda PwC i nodi £1.5m o arbedion yn ystod blwyddyn 2015/16. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 27 Mai 2015, ystyriodd yr Aelodau Achosion Busnes drafft PwC, fel y'i cymeradwywyd gan y Cabinet ar 12 Mai 2015. Ystyriodd y Cabinet y sylwadau a'r argymhellion ar 2 Mehefin 2015. Roedd argymhelliad y Pwyllgor fel a ganlyn:

Mae Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn argymhell y dylid bwrw ymlaen â'r cynnydd arfaethedig, yn amodol ar ymgynghori priodol. Gofynnodd y Pwyllgor am y cyfle i ystyried y mater ymhellach pan fyddai canlyniad yr ymgynghoriad yn hysbys. Bryd hynny gofynnwyd i'r wybodaeth fod ar gael fel y gallai'r Pwyllgor gymharu'r cynnydd arfaethedig yn y ffioedd ag Awdurdodau Lleol o'r un maint daearyddol a phroffil demograffig Ceredigion.

Newidiwyd yr achosion busnes drafft i gynnwys data cymharol a ddefnyddiwyd i bennu'r cynigion cyn ymgynghori yn eu cylch. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 30 Mehefin 2015. Cafwyd 308 o ymatebion. Yn ei gyfarfod ar 15 Gorffennaf 2015, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn dadansoddi'r ymatebion a rhoddwyd adborth i'r Cabinet ar 28 Gorffennaf 2016. Derbyniodd y Cabinet bob un o argymhellion y Pwyllgor.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad ynglŷn â'r modd yr oedd Tîm Ymchwil Ceredigion yn casglu ac yn cofnodi'r data a oedd wedi'i gynnwys yng Nghynllun Cydraddoldeb

Strategol Ceredigion. Teimlai'r Aelodau y byddai hyn o fudd pan fyddai gwybodaeth ystadegol yn cael ei pharatoi yn y dyfodol oherwydd byddai ganddynt well dealltwriaeth o le yr oedd yn dod.

Gwnaeth yr Aelodau barhau i dderbyn diweddariadau rheolaidd ynglŷn â Diwygio Lles.

Cynhaliwyd cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 19 Hydref 2015 am fod penderfyniad y Cabinet ynghylch Llyfrgell Aberteifi, Canolfan Teifi a Swyddfeydd y Cyngor yn Stryd Morgan a Pharc Teifi Aberteifi wedi'i alw i mewn. Cynhaliwyd y cyfarfod yn Ffestri Tabernacl, Aberteifi. Cafodd yr Aelodau'r cyfle i ymweld â Llyfrgell Aberteifi a Swyddfeydd y Cyngor yn Stryd Morgan cyn i'r cyfarfod ailddechrau i drafod yr argymhelliad. Ar ôl ystyried y mater hwn, cytunwyd y dylid cyfeirio'r mater hwn i'r Cyngor Llawn gan ofyn bod adroddiad cynhwysfawr ynglŷn â'r mater hwn yn cael ei baratoi. Dywedwyd y dylai'r adroddiad gynnwys cynllun busnes a fyddai'n amlinellu goblygiadau ariannol y cynnig a gwybodaeth ynglŷn â'r modd yr ymdrinnir â materion o ran cyfrinachedd. Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 2 Tachwedd 2015, roedd gwybodaeth ychwanegol ar gael i'r Aelodau. Cafodd aelodau o'r cyhoedd a'r wasg eu cau allan o ran o'r cyflwyniad a'r drafodaeth a chawsant ddod yn ôl i'r Siambr am weddill y drafodaeth a'r penderfyniad. Yn dilyn pleidlais gofrestredig, penderfynwyd cyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet ar gyfer ystyriaeth bellach. Yng nghyfarfod y Cabinet ar 12 Ionawr 2016, cytunwyd i adnewyddu'r adeilad yn Stryd Morgan i gynnwys y llyfrgell ar y llawr gwaelod fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad; a therfynu'r brydles bresennol ar gyfer Canolfan Teifi.

Roedd grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu'n flaenorol i adolygu ymateb y Cyngor i argyfwng llifogydd Ceredigion. Diben y cyfarfodydd hyn oedd cynnal trafodaethau anffurfiol ynghylch sgîl-effeithiau'r llifogydd, gan roi'r cyfle i'r trigolion lleol i siarad am yr hyn ddigwyddodd yn ystod y llifogydd ac ar ôl hynny, gan dynnu sylw at unrhyw bryderon/gofidiau a allai dal fod yn berthnasol. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cynhaliodd y Grŵp gyfarfod cyhoeddus yn y Borth a'r bwriad yw ymweld ag Aberystwyth ac Aberaeron yn y cyfnod adrodd nesaf.

Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried y Polisi Cynhyrchu Incwm ac Adennill Costau yr oedd y Cabinet wedi'i gymeradwyo'n flaenorol ar 10 Tachwedd 2015.

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ynglŷn â'r opsiynau ynghylch gwneud arbedion ar gyllidebau'r gwasanaethau yn 2016/2017 gan gyflwyno adroddiad yn amlinellu ei argymhellion gerbron y Cabinet.

Ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Dynol yr adroddiad ar ganlyniadau'r ymgynghoriad i'r opsiynau ar gyfer ailgynllunio'r gwasanaeth llyfrgelloedd.

Cytunodd yr Aelodau cyn y gall argymhellion ynghylch Ailgynllunio'r Gwasanaeth

Llyfrgelloedd gael eu cyflwyno gan y Pwyllgor i'r Cabinet, y dylid cyflwyno'r holl wybodaeth ar wasanaethau llyfrgelloedd Cyngor Sir Ceredigion i gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol. Roedd y wybodaeth ychwanegol yn cynnwys data ar ddefnydd y gwasanaeth a chostau rhedeg ar gyfer pob un o'r llyfrgelloedd a'r faniau. Ar 8 Chwefror 2016, ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd ymhellach, cytunwyd argymhell i'r Cabinet fel a ganlyn:

- Dylai Cyngor Sir Ceredigion gychwyn trafodaethau gyda'r gymuned leol yn Llandysul i archwilio'r cyfle am fodel gwahanol megis cyfleusterau a redir gan y gymuned. Dylai'r ymgynghoriad arfaethedig gynnwys y posibilrwydd o adleoli'r llyfrgell i leoliad arall yn Llandysul.

Os byddai canfyddiadau'r ymgynghoriad yn dangos nad ydy'r cynnig cymunedol yn ddichonadwy yna byddai'r Pwyllgor yn ailystyried pwynt 1, Opsiwn 1 o'r argymhellion i wneud y canlynol:

1. Cau un llyfrgell sefydlog.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor â phwyntiau 2 a 3, Opsiwn 1:

2. Gostwng y nifer o faniau symudol i dri;

3. Lleihau costau staff cefn swyddfa

Mae'r mater hwn yn dal i fynd rhagddo a bydd adroddiad amdano yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

Ym mis Mawrth 2016, darparwyd diweddariad blynyddol ynglŷn ag Ymgysylltu gan ganolbwyntio ar Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i Gyfathrebu ac Ymgysylltu â'r Dinasyddion. Fel rhan o Gynllun Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2015/16, gwnaeth Swyddfa Archwilio Cymru ddarn o waith o ran asesu'r gwelliannau yr oedd y Cyngor yn ei wneud o ran Cyfathrebu ac Ymgysylltu â'r Dinasyddion. Cytunwyd y dylai'r Pwyllgor gael diweddariadau blynyddol i fonitro'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud o ran Cyfathrebu ac Ymgysylltu â'r Dinasyddion yn y dyfodol.

Hefyd yn y cyfarfod ym mis Mawrth, cyflwynwyd adroddiad ynghylch y Protocol ar gyfer dod ag Asedau o dan Reolaeth Gymunedol. Cytunodd yr Aelodau i gadarnhau'r protocol er mwyn ei ddefnyddio yn y dyfodol.

Gwnaeth yr Aelodau barhau i fonitro'r perfformiad blynyddol o ran casglu Treth y Cyngor ac Ardrethi Busnes. Yn y cyfarfod ym mis Mawrth 2016, derbyniodd yr Aelodau adroddiad i ystyried goblygiadau Premiwm Treth y Cyngor **ar gyfer cartrefi gwag yn yr hirdymor ac ail gartrefi**, cyn i'r mater gael ei ystyried gan y Cyngor Llawn ar 24 Mawrth 2016. Rhoddodd Aelod o'r Pwyllgor yr adborth canlynol ar lafar yng nghyfarfod y Cyngor Llawn:

Ar ôl ystyried yr adroddiad ynglŷn â Chodi Premiwm ar Dreth y Cyngor ar gyfer cartrefi a fu'n wag am gyfnod hir, mae'r Aelodau'n cytuno ag argymhelliad y Cabinet;

ac maent yn cytuno'n gryf y dylai'r arian gael ei wario ar y Gymuned/ Ardal berthnasol. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i ddefnyddio unrhyw refeniw ychwanegol i gynorthwyo â'r gwaith o ddiwallu'r anghenion tai lleol, yn unol ag amcanion y polisi.

Ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Dynol bedwar polisi yn ei gyfarfod arbennig ar 18 Ebrill 2016. Yn dilyn trafodaeth, bu i'r Aelodau argymhell y dylai'r Cabinet gymeradwyo'r defnydd o'r Polisiâu'n amodol ar y canlynol:

1. Polisi Disgyblu

- Ar dudalen 11, mae 12.4 yn nodi: bydd y Panel yn ystyried ac yn trafod yr holl dystiolaeth, ac yn penderfynu ar y canlyniad, gan gynnwys unrhyw gosb bosib. Caiff y gair 'sanction' ei gyfieithu i 'cosb' yn y fersiwn Cymraeg. Awgryma'r Aelodau bod gair arall yn cael ei ystyried yn lle 'cosb';
- Ar dudalen 6, mae paragraffau 5.2 a 5.3 yn cyfeirio at Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 a Pholisi a Gweithdrefnau Interim Cymru ar gyfer Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed Rhag cael eu Cam-drin 2013, dylai'r rhain gael eu newid i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2016;
- Ar dudalen 10, mae paragraff 11.5 yn nodi fel a ganlyn: Cyfrifoldeb yr unigolyn yw cysylltu â'i dystion. Awgryma'r Aelodau dylai'r gair **unigolyn** gael ei newid i'r gair **gweithiwr**;
- Ar dudalen 28, mae Atodiad 6 yn cyfeirio at Banel o Aelodau Etholedig a Swyddog Adnoddau Dynol i gynghori. Awgrymir bod y nifer gwirioneddol o bobl yn cael ei nodi yn hytrach na nodi 'panel o Aelodau Etholedig' yn unig, er enghraifft, panel o **dri** Aelod Etholedig;
- Awgrymwyd bod cyfanswm yr Achosion Disgyblu mae Cyngor Sir Ceredigion yn delio â hwy yn cael ei adrodd i'r Arweinydd a/neu'r Dirprwy Arweinydd yn y dyfodol ac yna efallai'n cael ei adrodd i'r Cyngor Llawn er gwybodaeth.

2. Polisi a Gweithdrefn Atal Dros Dro

- Tudalen 4, 1.2.5 Swyddog Atal ac 1.2.6 Swyddog Disgybl, roedd yr Aelodau'n teimlo y dylai'r Swyddog Atal a'r Swyddog Disgyblu fod yn bersonau ar wahân ac nid yr un unigolyn, sef yr hyn a nodir yn y polisi ar hyn o bryd;
- Ar dudalen 4, mae 1.4 Egwyddorion ar hyn o bryd fel a ganlyn: **gan gynnwys cymorth cydweithiwr a benodir i rôl Swyddog Cyswllt i roi gwybod i'r aelod staff am faterion sy'n gysylltiedig â gwaith yn ystod y cyfnod hwn.** Awgryma'r Aelodau fod y frawddeg yn cael ei diwygio i gynnwys y geiriau, *gyda chytundeb y gweithiwr*. Felly dylai'r frawddeg ddarllen fel a ganlyn: gan gynnwys cymorth cydweithiwr a benodir, **gyda chytundeb y gweithiwr**, i rôl Swyddog Cyswllt i roi gwybod i'r aelod staff am faterion sy'n gysylltiedig â gwaith yn ystod y cyfnod hwn.

3. Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

- Pennawd Atodiad 1 y Polisi Cyfryngau Cymdeithasol yw **Canllawiau i staff y Cyngor**, awgryma'r Aelodau y dylid ystyried cael gair arall yn lle Canllawiau gan fod y geiriau **Peidiwch â** yn cael eu hailadrodd wrth roi cyfarwyddiadau penodol i Weithwyr. Mae Aelodau'r Pwyllgor o'r farn bod y geiriau **Peidiwch â** yn rhoi cyfarwyddiadau penodol yn hytrach na chanllawiau.

Derbyniodd y Cabinet argymhelliad y Pwyllgor ar wahân i'r un yn y Polisi Disgyblu ynglŷn â'r gair 'sanction' sydd wedi'i gyfieithu i 'cosb' yn y fersiwn Cymraeg. Awgrymodd yr Aelodau bod gair arall yn cael ei ystyried yn lle 'cosb'; Roedd y Cabinet yn cytuno â'r gair 'cosb'.

Hefyd, rhoddodd y Gwasanaeth Adnoddau Dynol y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ddau ddatblygiad newydd.

- Ceri – system y Gyflogres ac Adnoddau Dynol
- Ceri-net – mewnrwyd Adnoddau Dynol

Roedd y Cwynion Corfforaethol wedi'u cynnwys ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ym mis Medi 2015 o ran nifer y cwynion a gadarnhawyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn 2014-2015. Esboniodd y Swyddogion bod Swyddog Gwella wedi'i ddynodi i'r Awdurdod o swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a oedd yn gweithio ochr yn ochr â'r Pennaeth Cefnogi Polisi a'r Swyddog Cwynion Corfforaethol i nodi'r meysydd hynny yr oedd angen eu gwella a mynd i'r afael â hwy. I'r perwyl hwn, gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor fod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol fel y gallai Aelodau'r Pwyllgor dderbyn gwybodaeth am y cynnydd a wneir o ran ymateb i gwynion sy'n cael eu hychwanegu at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Yn dilyn trafodaeth, darparodd y Cadeirydd yr adborth canlynol a chytunodd y Cabinet â'r adborth hwnnw:

Nodwyd gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol fod pethau'n gwella o ran ymateb i gwynion a ychwanegwyd at y Gofrestr Risg Corfforaethol a chytunwyd y dylid parhau i dderbyn diweddariad rheolaidd mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Fodd bynnag, bu i Aelodau'r Pwyllgor argymell y dylid gwneud gwaith pellach er mwyn sicrhau bod yr argymhellion a wnaed yn dilyn archwiliadau Cam 2 yn cael eu monitro a'u gweithredu ac y dylai Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol dderbyn adroddiad ar hyn mewn chwe mis. Mae'r trefniadau yma mewn lle ar hyn o bryd ar gyfer argymhellion yr Ombwdsmon ond nid ar gyfer Cwynion Cam 2.

Bu i Aelodau'r Pwyllgor hefyd argymell y dylai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu weld yr Adroddiad blynyddol yn y dyfodol, ac y dylai pob un o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ystyried y cwynion sy'n ymwneud â chylch gorchwyl y Pwyllgor perthnasol. Cyfrifoldeb y Pennaeth Gwasanaeth fydd cyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol.

Ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor yr adroddiad ynglŷn â Gwasanaethau Cwsmeriaid Ceredigion a bu iddynt drafod y weledigaeth o ran gofal cwsmeriaid Corfforaethol yng Ngheredigion yn y dyfodol. Cyflwynodd Arwyn Morris, Pennaeth y Gwasanaethau Cwsmeriaid a TGCh y wybodaeth i Aelodau'r Pwyllgor a gofynnodd i'r Aelodau gadarnhau'r model cyflenwi arfaethedig ar gyfer y dyfodol. Ar ôl ystyried y mater yn ofalus, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor argymell i'r Cabinet y dylid ymchwilio i'r weledigaeth o ran gofal cwsmeriaid gyda'r nod o'i mabwysiadu fel dull gweithredu yn y dyfodol, ac argymhellwyd hefyd fod y Dirprwy Brif Weithredwr, y Pennaeth

TGCh a Gwasanaethau Cwsmeriaid a'r Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros Wasanaethau Ariannol, Technoleg Gwybodaeth a Chwsmeriaid, Tai a Chynllunio yn mynd ati i gaffael y system ganolog ar gyfer Data Cwsmeriaid gan ymgynghori ynglŷn â'i weithredu. Serch hynny, roedd yr Aelodau'n dymuno gweld adroddiad arall yn dod gerbron y Pwyllgor cyn y gwneir unrhyw benderfyniad terfynol. Derbyniodd y Cabinet argymhellion y Pwyllgor a chytunodd y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn y dyfodol i'w ystyried yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 12 Mai 2016, ystyriodd yr Aelodau Strategaeth / Cynllun Ariannol Diwygiedig y Tymor Canolig. Diwygiwyd Strategaeth Ariannol y Tymor Canolig er mwyn paratoi'r Cyngor ar gyfer y tair blynedd nesaf o drawsnewid. Mae'r cynllun yn gosod y sylfaen ar gyfer y gyllideb refeniw flynyddol drwy greu strategaeth bendant ar gyfer cyflawni cynllun arbedion trwyadl, er mwyn ymdopi â llai o adnoddau, a mwy o gostau. Nodwyd bod y Pwyllgorau Craffu eisoes yn ystyried cynllunio ariannol drwy'r flwyddyn. Ar ôl ystyried hyn yn ofalus, cytunodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol i nodi'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a gymeradwywyd a'r pwysau cyllidebol a oedd yn debygol o wynebu'r Awdurdod dros y tymor canolig.

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ar bedwar achlysur ar ddeg yn ystod blwyddyn 2015/2016.

Materion allweddol a ystyriwyd

Ar ddechrau blwyddyn y Cyngor, ystyriwyd datblygiad y Flaenraglen Waith Trosolwg a Chraffu ar gyfer 2015/2016. Cafodd y Flaenraglen Waith ei monitro a'i diweddarau ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor fel eitem sefydlog ar bob agenda.

Cynhaliwyd cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor ar 27 Mai 2015 i ystyried Achosion Busnes Price Waterhouse Coopers (PwC) (fel y nodir yn gynharach yn yr adroddiad) fel y'i cymeradwywyd gan y Cabinet ar 12 Mai 2015. Bu i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach argymhell i'r Cabinet y dylid bwrw ymlaen â'r cynnydd arfaethedig, yn amodol ar ymgynghori priodol. Gofynnodd y Pwyllgor am y cyfle i ystyried y mater ymhellach unwaith y byddai canlyniadau'r ymgynghori ar gael. Bryd hynny gofynnwyd i'r wybodaeth fod ar gael fel y gallai'r Pwyllgor gymharu'r cynnydd arfaethedig yn y ffioedd ag Awdurdodau Lleol o'r un maint daearyddol a phroffil demograffig Ceredigion. Newidiwyd yr achosion busnes drafft i gynnwys data cymharol a ddefnyddiwyd i bennu'r cynigion cyn ymgynghori yn eu cylch. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 30 Mehefin 2015. Cafwyd 308 o ymatebion. Yn ei gyfarfod ar 16 Gorffennaf 2015, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn dadansoddi'r ymatebion. Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn dymuno nodi nad oedd ystyried yr argymhellion yn brofiad pleserus o gwbl a'u bod yn ei chael hi'n anodd iawn eu cefnogi. Serch hynny, o ystyried y pwysau ariannol ar y Cyngor, pwysau na welwyd ei fath o'r blaen, roedd yr Aelodau'n gwerthfawrogi bod yn rhaid iddynt ystyried y ffioedd hyn a chafodd eu hargymhellion eu derbyn gan y Cabinet.

Rhoddiwyd esboniad o'r broses Comisiynu yn ystod y cyfarfod ar 11 Mehefin 2015 fel y gallai'r Aelodau gael gwell dealltwriaeth o'r gwaith a wneir yng Ngheredigion. Yn ystod y drafodaeth, ystyriodd yr Aelodau a oedd y system / y broses yn deg i bawb. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y byddai'r Aelodau yn craffu ar Sicrwydd Ansawdd (Gofal) yn un o gyfarfodydd y dyfodol.

Yn yr un cyfarfod, cafwyd adroddiad am (1) Amodau Hygyrchedd Cerbydau Hachnai a Cherbydau Hurio Preifat ar gyfer Gyrwyr Dynodedig; (2) Datblygu Cytundeb Enghreifftiol ar gyfer Tenantiaeth Fyrddaliol Sicr mewn tai sydd wedi'u rhentu'n breifat a (3) Diwygiadau ac Ychwanegiadau i Bolisi Benthyciadau a Grantiau Tai Sector Preifat Ceredigion a gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol i'r Cabinet:

Ar ôl ystyried y papurau (1) a ddarparwyd i'r Pwyllgor yn fanwl, cytunwyd y dylid cefnogi'r argymhellion i'r Cabinet, yn amodol ar ystyried y canlynol:

1. ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio gwregysau ar gyfer cludo cŵn;
2. bod y ddogfen yn ei gwneud yn glir bod disgwyl i'r gyrwyr fynd ar y rhan berthnasol o hyfforddiant 'MIDAS' ac nid ar y cwrs cyfan;
3. bod y ddogfen hefyd yn ei gwneud yn glir bod yr hyfforddiant 'MIDAS' yn cael ei ddarparu yn rhad ac am ddim drwy Uned Iechyd a Diogelwch Ceredigion a'i fod ar gael i bob gyrrwr;
4. ymchwilio a yw hawliau blaenorol yn berthnasol i'r gyrwyr presennol; ac
5. ymchwilio i'r posibilrwydd o arddangos arwyddion braille mewn Cerbydau Hacni.

Ar ôl ystyried y cytundeb (2), daeth y Pwyllgor i'r casgliadau canlynol:

1. Bod Prifysgol Aberystwyth, Urdd Myfyrwyr y Brifysgol a'r grŵp llywio (a sefydlwyd yn 2012) yn gefnogol iawn o'r broses o gyflwyno cytundeb tenantiaeth fel arfer dda gan bawb;
2. Mae Urdd y Myfyrwyr yn annog defnyddio templed cytundeb sengl y gellir ei gyfieithu'n syml i unrhyw iaith fel ffordd o gefnogi myfyrwyr rhyngwladol;
3. yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, caiff y ddogfen ei lansio yn y Fforwm Landlordiaid yn Aberystwyth ar 24 Awst 2015.
4. Awgrymwyd y dylid defnyddio'r term landlord achlysurol yn hytrach na landlord amatur yn yr adroddiad.
5. Mynegwyd pryder ynglŷn â logos Cyngor Sir Ceredigion, Prifysgol Aberystwyth ac Urdd y Myfyrwyr sydd ar y ddogfen ar hyn o bryd. Mae'r pryder yn ymwneud â'r posibilrwydd y gall y landlord ond ddefnyddio rhan o'r ddogfen gan barhau i ddefnyddio logos Cyngor Sir Ceredigion, Prifysgol Aberystwyth ac Urdd y Myfyrwyr. Awgrymwyd felly y dylid cynnwys datganiad i'r perwyl canlynol 'a fyddech cystal â dileu'r logos os byddwch yn penderfynu peidio â defnyddio'r ddogfen yn ei chyfanrwydd';
6. Mynegodd un o'r Cynghorwyr bryder ynglŷn â'r ymwrthodiad am ei fod yn teimlo y dylid bod wedi ymgynghori â Chyfreithwyr Ceredigion.
7. Llongyfarchodd Aelodau'r Pwyllgor y Tîm am eu hymdrechion wrth greu'r ddogfen.

Ar ôl ystyried y Polisi Grantiau a Benthyciadau (3), *gofynnwyd pwy oedd yn gymwys i ymgeisio am Grant, ac a oedd modd i denant ymgeisio neu a oedd yn rhaid i'r landlord wneud hynny*. Cytunodd y Pwyllgor wedyn y dylid argymhell i'r Cabinet gymeradwyo'r newidiadau a argymhellwyd i'r Polisi Benthyciadau a Grantiau Tai yn y Sector Preifat yng Ngheredigion.

Gwnaeth Grŵp Gweithredol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ceredigion barhau i roi diweddariadau blynyddol am y gwaith yr oedd yn ei wneud yn ystod y flwyddyn. Roedd yr Aelodau'n falch bod yr holl gynrychiolwyr perthnasol yn bresennol a bod gwaith da yn cael ei gyflawni drwy gydweithio.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cynhaliwyd Adolygiad o'r Cartrefi Preswyl a bydd hynny'n parhau yn y flwyddyn adrodd newydd. Cyflwynwyd yr adroddiad cyntaf gerbron y Pwyllgor mewn Cyfarfod Arbennig ym mis Gorffennaf. Roedd yr adroddiad yn cynnwys yr opsiynau penodol canlynol ar gyfer pob cartref gofal:

Awel Deg, Llandysul

Opsiwn 1: Cyflawni astudiaeth ddichonoldeb fanwl ynghylch creu Canolfan Integredig Iechyd Meddwl i'w rhedeg ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, gan ddarparu model gofal cydweithredol i gynorthwyo oedolion a phobl hŷn â phroblemau iechyd meddwl. Bydd angen i'r opsiwn hwn gynnwys cymorth mewn argyfwng ac opsiynau mwy hirdymor ar gyfer pobl â dementia.

Opsiwn 2: Ailagor y cartref fel cartref gofal dementia ar ôl cyflawni gwaith moderneiddio sylweddol.

Argymhelliad:

Argymhellir bod y Cabinet yn cymeradwyo Opsiwn 1 o ran Awel Deg.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor ag Opsiwn 1, gan awgrymu y dylai'r Cabinet gymeradwyo Opsiwn 2 pe bai'n dod i'r amlwg fod Opsiwn 1 yn anymarferol.

Bodlondeb, Aberystwyth

Opsiwn 1: Trosglwyddo'r cartref fel busnes gweithredol i ddarparwr preifat i ddiwallu'r angen am ofal nyrsio/nyrsio dementia. Wrth ystyried yr opsiwn hwn, cydnabyddir y bydd angen i'r aelodau bwysu a mesur y safbwyntiau a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn erbyn pwysigrwydd diwallu angen difrifol am ofal nyrsio dementia nad yw'n cael ei ddiwallu ar hyn o bryd yng ngogledd y sir.

Opsiwn 2: Cyflawni astudiaeth ddichonoldeb fanwl ynghylch creu Canolfan Integredig Iechyd Meddwl i'w rhedeg ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, gan ddarparu model gofal cydweithredol i gynorthwyo oedolion a phobl hŷn â phroblemau iechyd meddwl. Byddai'n cynnwys cymorth mewn argyfwng ac opsiynau mwy hirdymor ar gyfer pobl â dementia.

Argymhelliad:

Argymhellir bod y Cabinet yn cymeradwyo mynd ati i gyflawni Opsiwn 1, gan gydnabod y bydd heriau sylweddol. Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo Opsiwn 2 os na fydd modd cyflawni Opsiwn 1.

Nid oedd Aelodau'r Pwyllgor yn cytuno ag Opsiwn 1 a phenderfynwyd argymhell bod y Cabinet yn mabwysiadu Opsiwn 2. Hefyd, awgrymodd Aelodau'r Pwyllgor fod y geiriau a amlygir isod yn cael eu cynnwys a'u hystyried fel rhan o Opsiwn 2: *Cyflawni astudiaeth ddichonoldeb fanwl ynghylch creu Canolfan Integredig Iechyd Meddwl, **gan gynnwys cadw'r ddarpariaeth gofal preswyl**, i'w rhedeg ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, gan ddarparu model gofal cydweithredol i gynorthwyo oedolion a phobl hŷn â phroblemau iechyd meddwl. Byddai'n cynnwys cymorth mewn argyfwng ac opsiynau mwy hirdymor ar gyfer pobl â dementia.*

Bryntirion, Tregaron

Argymhelliad:

Argymhellir bod y gwasanaethau a ddarperir ym Bryntirion ar hyn o bryd yn cael eu trawsnewid a'u trosglwyddo i Ganolfan Adnoddau Integredig Cylch Caron. I wneud hyn, bydd Bryntirion yn cau yn ôl y bwriad i sicrhau bod modd ailfuddsoddi arian cyfalaf yng Nghyfleuster Gofal Ychwanegol Cylch Caron. Yn sgil y pwyntiau penodol a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad, argymhellir hefyd na ddylai Bryntirion gau hyd nes bod y cyfleuster Gofal Ychwanegol wedi agor a'i fod yn barod i dderbyn trigolion. Amcangyfrifir y bydd yn barod yn 2017.
Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor â'r argymhelliad.

Hafan Deg, Llanbedr Pont Steffan

Argymhelliad:

Argymhellir bod safle Hafan Deg yn cael ei ailddatblygu i greu cynllun Gofal Ychwanegol neu gynllun hybrid newydd.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor â'r argymhelliad. Awgrymwyd galw hyn yn gynllun gofal preswyl yn hytrach na chynllun cymysg, fel y byddai'n haws i'r cyhoedd ei ddeall.

Min y Môr, Aberaeron

Argymhelliad:

Argymhellir bod safle Min y Môr yn cael ei ailddatblygu i greu cynllun Gofal Ychwanegol newydd i fodloni'r newid o ran y galw a bod cyfleoedd posibl i gynnwys y cynllun tai gwarchod cydffiniol yn cael eu trafod.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor â'r argymhelliad.

Tregerddan, Bow Street

Argymhelliad:

Rhagwelir y bydd yr ailddatblygiad hwn yn digwydd yn ddiweddarach yn ystod y rhaglen. Felly, dylai'r Awdurdod sicrhau bod y cartref yn cael ei gynnal a'i gadw yn y cyfamser a dylai werthuso effaith newidiadau eraill o ran y gofal a ddarperir yng ngogledd y sir pan fydd yn paratoi cynlluniau manylach ar gyfer y safle.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor â'r argymhelliad.

Yr Hafod, Aberteifi

Argymhelliad:

Nodwyd bod angen gofal nyrsio yn ne'r sir a bydd yr Awdurdod yn parhau i gydweithio â darparwyr gwasanaethau a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i sicrhau bod yr angen hwn yn cael ei ddiwallu.

Rhagwelir y bydd unrhyw ddatblygiad ar y safle'n digwydd yn ddiweddarach yn ystod y rhaglen. Felly, argymhellir bod rhagor o waith yn cael ei gyflawni yn y cyfamser i bwysu a mesur ffyrdd o wneud y gorau o'r cyfleoedd datblygu.

Os caiff yr uchod ei gymeradwyo, bydd angen i'r Awdurdod neilltuo arian cyfalaf i sicrhau bod adeiledd a strwythur y cartref yn gynaliadwy yn y tymor canol.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor â'r argymhelliad gan awgrymu y dylid pwysleisio mai cynnig yw hwn i ailddatblygu'r safle sy'n bodoli eisoes, ac nid ei hailwampio.

Yn dilyn y cyfarfod, cafodd y penderfyniad ynghylch Cartref Preswyl Bodlondeb, Aberystwyth ei alw i mewn a threfnwyd cyfarfod arbennig ym mis Awst 2015. Yn dilyn trafodaeth, cyfeiriwyd y mater at y Cyngor Llawn i'w benderfynu. Cytunwyd wedyn ar Opsiwn 1 (a ddangosir o dan Gartref Preswyl Bodlondeb) yn y Cyngor Llawn.

Gwnaeth y Bwrdd Lleol Diogelu Plant barhau i adrodd i'r Pwyllgor yn rheolaidd a bellach mae'r Adroddiad Diogelu yn cael ei roi gan Grŵp Gweithredol Lleol CYSUR. Hefyd, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad y Swyddog Adolygu Annibynnol yn rheolaidd.

Cafwyd adroddiad ynglŷn â'r ffioedd diwygiedig, gan gynnwys y ffioedd diwygiedig o ran gyrwyr a chwmnïau tacsis o ganlyniad i ddeddfwriaeth newydd. Cadarnhaodd y swyddogion fod y ffioedd a'r taliadau oll yn seiliedig ar adennill costau, ac ni wneid elw ar yr un ohonynt.

Ar ôl ystyried y mater hwn yn ofalus, CYTUNODD y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach â'r ffioedd arfaethedig, yn amodol ar gael eglurder o ran y ffioedd Cerbyd Hacnai a Cherbydau Hurio Preifat, yn benodol a fyddai'n rhaid i yrwyr dalu o'r newydd pe caent eu gwahardd rhag gyrru. Argymhellwyd hefyd y dylid ceisio gwybodaeth gan awdurdodau eraill er cymhariaeth cyn i'r Cabinet ystyried y tâl o dan y Ddeddf Anifeiliaid Perfformio.

Yn y cyfarfod ar 16 Medi 2016, ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach yr Adolygiad Statudol ynghylch Datganiad o Bolisi Trwyddedu'r Awdurdod. Yr oedd yn destun pryder i'r aelodau ddysgu mai Ceredigion sydd â'r nifer fwyaf o unigolion sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty yn gysylltiedig ag alcohol; yn ôl bras amcan fesul 100,000 unigolyn o dan 18 oed yn awdurdodau lleol Cymru ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2010/11 – 2012/13. Cofnodwyd bod 138 wedi'u derbyn i'r ysbyty ar y sail hon yng Ngheredigion o'i gymharu â chyfartaledd Cymru sy'n 65. Cafodd y ffigyrau hyn eu cynhyrchu gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Swyddogion Trwyddedu ymchwilio i'r ffigyrau hyn er mwyn cadarnhau eu bod yn gywir ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor maes o law. Yn dilyn ystyriaeth fanwl o'r papurau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, cytunwyd i gefnogi'r argymhelliad i'r Cabinet; sef bod y Cabinet yn cymeradwyo Datganiad o Bolisi Trwyddedu Cyngor Sir Ceredigion. Wrth ymateb i'r pryder a godwyd, trefnodd y Swyddogion i gynrychiolydd o Iechyd Cyhoeddus Cymru ddod i un o gyfarfodydd y

Pwyllgor i esbonio'r ystadegau a adroddwyd i'r Pwyllgor ar 16 Medi 2015 ynglŷn â'r bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty yn benodol oherwydd alcohol. Yn sgil hynny, daeth dau gynrychiolydd i'r cyfarfod ar 11 Chwefror 2016. Derbyniwyd cyflwyniad gan Ian Scale, Dirprwy Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus a Rhys Sinnett, Pen Swyddog Iechyd Cyhoeddus, lle buont ill dau'n ymhelaethu ar yr wybodaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Medi. Cadarnhawyd bod y gwir ffigur blynyddol ar gyfartaledd yn dangos bod deunaw o bobl ifanc o dan ddeunaw wedi'u derbyn i'r ysbyty yng Ngheredigion yn ystod 2010/11-2012/13, o gymharu â 27 yn Sir Benfro a 19 yn Sir Gâr. Roedd y siart bar a gyflwynodd Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar y Polisi Trwyddedu, a oedd yn dangos mai Ceredigion oedd â'r gyfran fwyaf fesul 100,000 o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty oherwydd alcohol yn benodol. Er bod y ffigur hwnnw'n gywir, roedd yn gamarweiniol am ei fod yn cynnwys plant a phobl ifanc o bob oed lle'r oedd alcohol wedi cyfrannu at orfod mynd i'r ysbyty. Er enghraifft, roedd yr ystadegau'n cynnwys plant a oedd wedi yfed diod feddwol ar ddamwain. Hefyd, bu'n rhaid rhoi cyfran fesul 100,000 er mwyn gallu cymharu ffigurau wrth ddadansoddi'r ystadegau, ac roedd hynny wedi effeithio ar y siart bar. Awgrymwyd y dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru ddefnyddio'i ffigurau ei hun yn y dyfodol (fel yn y cyflwyniad ar 11.2.2016) gan y byddai'n fuddiol medru cymharu gwahanol ddangosyddion. Roedd swyddogion Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cydnabod y byddai hynny'n rhoi darlun mwy cywir o'r sefyllfa, ac ymddiheuront am unrhyw ddryswch.

Yn y cyfarfod ar 4 Tachwedd 2015, cafwyd adroddiad diweddar a oedd yn rhoi gwybodaeth i Aelodau'r Pwyllgor am yr amserlen arfaethedig o ran yr Adolygiad o Gartrefi Preswyl y Sir. Daeth Nerys Lewis, Rheolwr y Rhaglen Moderneiddio Gwasanaethau; Melanie Evans, Rheolwr Gwasanaeth Partneriaethau a Strategaethau; a George Ryley, Rheolwr Caffael, ymlaen yn eu tro i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen foderneiddio ar gyfer pob un o'r saith cartref preswyl. Dywedodd Nerys Lewis y penodwyd bwrdd rhaglen a thîm i fwrw ymlaen â'r gwaith. Roedd y sefyllfa bresennol fel yr amlinellir isod:-

Bodlondeb, Aberystwyth – Hysbysodd George Ryley'r Aelodau fod y drefn gaffael yn un gymhleth, ac oherwydd hynny penderfynwyd y byddai'n well defnyddio'r dull deialog cystadleuol. Esboniodd Mr Ryley gam wrth gam yr hyn a fyddai'n digwydd ar ôl y deialog cystadleuol. Cadarnhaodd y gellid penodi gweithredwr preifat ym mis Mehefin 2016 a dim cynt.

Awel Deg, Llandysul – Hysbysodd Melanie Evans yr Aelodau fod Cyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn mynd ati ar y cyd i ddatblygu astudiaeth dichonolrwydd. Byddai hynny'n fuddiol wrth ddatblygu Awel Deg yn ganolfan iechyd meddwl integredig.

Hafan Deg, Llanbedr Pont Steffan; Min-y-môr, Aberaeron; Tregerddan, Bow Street a'r Hafod, Aberteifi – Hysbysodd Nerys Lewis yr Aelodau yr eid ati ddechrau mis Ionawr 2016 i wneud y gwaith cwmpasu a datblygu'r dull gweithredu.

Cylch Caron – Hysbysodd Nerys Lewis yr Aelodau fod prosiect Cylch Caron yn rhan o'r rhaglen moderneiddio cartrefi preswyl. Wrth ddatblygu prosiect Cylch Caron defnyddid trefn gaffael mewn dau gam. Y cam cyntaf fyddai penodi Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, a'r ail gam fyddai dethol partner Dylunio ac Adeiladu.

Yn dilyn trafodaeth, gwnaeth Aelodau'r Pwyllgor argymhell y canlynol i'r Cabinet:

1. dylid cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach fel Aelod o Fwrdd y Rhaglen Moderneiddio Gofal Preswyl;
2. dylai Aelodau Lleol gael yr holl wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn ag unrhyw ddatblygiadau o ran cartrefi yn eu wardiau hwy;
3. dylai Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach dderbyn yr wybodaeth yn rheolaidd, a chael gwybod am unrhyw ddatblygiadau sydd ar y gweill;
4. dylid cyflwyno dogfen briffio gerbron y Pwyllgor cyn belled â'i bod ar gael, a dylai'r ddogfen honno bennu disgwyliadau Cyngor Sir Ceredigion cyn unrhyw breifateiddio;
5. dymunai'r Cynghorwyr Alun Lloyd Jones a Lyndon Lloyd ei gwneud yn eglur eu bod ill dau'n anghytuno ag argymhelliad rhif 1 i'r Cabinet, sef rhoi awdurdod i swyddogion fwrw ymlaen â'r drefn gaffael ar gyfer cyflawni'r Rhaglen Moderneiddio Gofal Preswyl, gan eu bod ill dau'n gwrthwynebu unrhyw drosglwyddiad i ddarparwr preifat;
6. Mynegodd Aelodau o'r Pwyllgor bryder ynglŷn ag argymhelliad rhif 3 i'r Cabinet, sef i ddirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Strategol Gofal, Amddiffyn a Ffordd o Fyw i ddyfarnu contractau yn unol â'r argymhellion uchod. Felly, gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr Strategol Gofal, Amddiffyn a Ffordd o Fyw ddarparu mwy o wybodaeth i'r Pwyllgor am y Drefn Lywodraethu.

Yn y cyfarfod ar 4 Tachwedd 2015, ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach y Polisi Gamblo diwygiedig a fyddai'n disodli'r Polisi cyfredol ar 31 Ionawr 2016. Bu i Aelodau'r Pwyllgor hefyd ystyried y pump ymateb a dderbyniwyd i'r ymgynghori.

Ar ôl ystyried y polisi, codwyd y pwyntiau canlynol:

1. ar dudalen 18 o 31 yn y Polisi drafft, defnyddiwyd y gair 'traciau'; byddai'n fuddiol cynnwys diffiniad o'r gair hwnnw;
2. ar dudalen 28 o 31, Atodiad B, dylid diwygio'r Rhestr o'r Ymgynghoreion fel ei fod yn cynnwys 'Un Llais Cymru' yn lle rhai o'r sefydliadau yr ymddengys eu bod wedi dod i ben;
3. gofynnwyd am eglurder o ran polisiâu drysau mewn safleoedd gamblo, hynny yw, a ddylid cau drws y safle ar bob adeg er mwyn annog pobl i beidio â gamblo.
4. Ar ôl ystyried y papurau a ddarparwyd i'r Pwyllgor yn fanwl, cytunwyd i gefnogi'r argymhelliad i'r Cabinet yn amodol ar ystyried yr uchod.

Croesawyd Peter Llewellyn, Bwrdd Iechyd Hywel Dda – Cyfarwyddwr Cynorthwyol Partneriaethau Strategol a Heather West, Rheolwr Gwasanaeth (Gogledd) a Swyddog Arweiniol Gofalwyr, a ddaeth i'r cyfarfod i roi cyflwyniad ynglŷn ag Adroddiad Blynyddol 2014/15 ar Strategaeth Gwybodaeth ac Ymgynghori ar gyfer Gofalwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Lluniwyd yr adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru, er mwyn rhoi braslun o'r cynnydd a wnaethpwyd wrth weithredu Strategaeth Gwybodaeth ac Ymgynghori ar gyfer Gofalwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda 2012-2015. Gweithredwyd y strategaeth honno yn 2014-2015 mewn partneriaeth rhwng y Bwrdd Iechyd a Chyngorau Sir Ceredigion, Sir Gâr a Sir Benfro. Croesawodd yr Aelodau'r cyfle i gael trafodaeth, ac aethant ati i grybwyll y materion canlynol:

- Roedd Gweithredu dros Blant (y Groes Goch, gynt) yn gweithio gydag Awdurdodau Addysg Lleol i gynorthwyo disgyblion ysgol a oedd yn Ofalwyr Ifanc. Sefydlwyd fframwaith anffurfiol a chafwyd trafodaethau â Chyngor Sir Ceredigion ynglŷn â chreu rhwydweithiau cymorth gan gyfoedion ar gyfer y Gofalwyr Ifanc.
- Dywedodd Aelodau fod angen ystyried plant oedd yn derbyn addysg adref ac yn ofalwyr.
- Soniwyd am yr angen am fwy o wasanaethau gofal dros nos i bobl hŷn, a'r ffaith bod prinder adnoddau yn cyfyngu ar hynny. Serch hynny, dywedwyd y byddai darparu mwy o ofal dros nos yn golygu y byddai llai o bobl yn mynd i'r ysbyty.

Penderfynwyd anfon llythyr at Mark Drakeford, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i fynegi pryderon ynglŷn â'r ansicrwydd o ran cyllid, a'r angen i gefnogi gwaith y gofalwyr yng Ngheredigion. Soniwyd y gallai rhai o'r canrannau a nodwyd yn yr adroddiad fod yn gamarweiniol, gan fod y niferoedd mor fach yn y Sir. Dywedodd Peter Llywelyn y gellid cywiro hynny pan gynhelid yr arolwg eto.

Croesawodd y Cadeirydd Meinir Harries, Nyrs Glinigol Arweiniol, De Ceredigion i'r un cyfarfod i hysbysu'r Pwyllgor am y gweithdrefnau a'r canllawiau sydd mewn lle er mwyn adnabod a rheoli briwiau pwysu. Roedd yr Aelodau yn falch bod canllawiau a gweithdrefnau llym ar waith.

Ymddiheurodd cynrychiolwyr o Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGCC) am nad oedd modd iddynt ddod i'r cyfarfod ym mis Mawrth, ac yn eu habsenoldeb, cyflwynodd Sue Darnbrook, Cyfarwyddwr Strategol dros Ofal, Amddiffyn a Ffordd o Fyw, werthusiad blynyddol yr AGGCC o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Ceredigion. Roedd yr adroddiad yn dangos y meysydd cynnydd a'r meysydd i'w gwella yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn dilyn trafodaeth, diolchodd y Cadeirydd i Sue Darnbrook am gyflwyno'r adroddiad yn absenoldeb cynrychiolwyr AGGCC.

Yn ei gyfarfod arbennig ar 1 Mawrth 2016, bu i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ystyried Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 2013/2014, Cyflawni â llai – yr effaith ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a dinasyddion a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2014. Nodwyd gan yr Aelodau fod gwasanaethau ar draws Cymru yn ystod y cyfnod dan sylw yn fregus iawn oherwydd rhwymedigaethau ariannol. Bu i Aelodau'r Pwyllgor dderbyn adroddiad oddi wrth Huw Williams,

Pennaeth y Gwasanaethau Ffordd o Fyw ar y sefyllfa gyfredol yng Nghyngor Sir Ceredigion. Croesawyd yr adroddiad gan fod Aelodau'r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd yng Ngheredigion. Mae'r gwasanaeth yn ymwneud â'r meysydd darpariaeth canlynol:

- Diogelu'r Amgylchedd / rheoli llygredd
- Iechyd y Cyhoedd /niwsans statudol
- Ansawdd aer a dŵr
- Tir halogedig
- Rheoli Clefydau Heintus
- Diogelwch Bwyd
- Iechyd Porthladdoedd
- Iechyd a Diogelwch
- Trwyddedu
- Rheoli Cŵn
- Rheoli Plâu
- Safonau tai (gan gynnwys y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai, ardaloedd adnewyddu, Trwyddedu a Rheoli Tai Amfeddiannaeth, addasiadau i'r anabl, ac ati.)
- Diogelu a Gwella Iechyd y Cyhoedd

Roedd Julie Barratt, Cyfarwyddwr, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd hefyd yn bresennol.

Cytunodd y Pwyllgor ei fod yn cefnogi ac yn gwerthfawrogi gwaith Gwasanaeth Iechyd Amgylcheddol y Cyngor yn fawr, yn enwedig o ystyried y pwysau ar y gyllideb ar hyn o bryd. Mae canlyniadau'r gwasanaeth o ran sicrhau bod preswylwyr ac ymwelwyr i'r Sir yn medru defnyddio sefydliadau arlwyyo gyda hyder yn rôl bwysig o ran cefnogi economi'r Sir. Cytunodd yr Aelodau argymhell i'r Cabinet fod y Cyngor yn parhau i gefnogi'r gwasanaeth gwerthfawr hwn.

Yn ystod yr un cyfarfod, cafwyd adroddiad a'r wybodaeth ddiweddaraf am ddirprwyo awdurdod ar gyfer Pwerau Newydd o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014. Ar ôl ystyried y papurau, gofynnwyd i'r Aelodau ystyried yr argymhellion canlynol:

1. dylai'r Aelodau Craffu nodi'r pwerau newydd yn Neddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014;
2. dylai'r Pwyllgor Craffu nodi bod Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 yn cael ei hychwanegu at y rhestr o'r statudau a ddirprwyir i Bennaeth y Gwasanaethau Ffordd o Fyw o fewn Cyfansoddiad a Chylch Gorchwyl y Cyngor; fel yr ystyriwyd gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 27 Ionawr 2016, er mwyn rhoddi'r awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau weithredu pwerau o dan ddarpariaethau'r Ddeddf ac awdurdodi'r Swyddogion;
3. dylai'r Aelodau Etholedig nodi y bydd craffu manwl ar y polisïau a'r gweithdrefnau gweithredol, gan gynnwys ystyried y goblygiadau o ran adnoddau a gallu cyn cytuno a gweithredu; a
4. dylai'r Pwyllgor Craffu argymhell bod y Cabinet yn cytuno ar strwythur ffioedd ar

gyfer rhoddi Hysbysiad Cosb Benodedig fel opsiwn o fewn y Ddeddf berthnasol a gosod lefel y ddirwy ar yr uchafswm a ganiateir yn statudol sef £100 (neu £75 os telir o fewn 7 niwrnod).

Roedd yr Aelodau'n dymuno nodi nad oedd arian ychwanegol ar gael ar gyfer y dyletswyddau ychwanegol hyn. Bu i'r Aelodau ystyried a chytuno â'r argymhellion uchod, yn amodol ar gael adroddiadau yn y dyfodol ynglŷn â phwynt 3, ac, argymhell i'r Cabinet gytuno â phwynt 4 er mwyn sefydlu strwythur o ffioedd ar gyfer hysbysiadau cosb benodedig fel opsiwn o dan y Ddeddf gan weithredu hynny a gosod lefel y ddirwy ar yr uchafswm sy'n bosib o dan y Ddeddf sef £100 (neu £75.00 os caiff ei dalu o fewn 7 niwrnod o'i gyflwyno).

Croesawodd yr Aelodau adroddiad ynglŷn â Pholisi Dyrannu Tai Dynodedig ar gyfer Pobl Hŷn a'r Polisi Dyrannu Tai Hygyrch gan nodi eu cynnwys. Awgrymodd yr Aelodau fod angen i'r Polisi Dyrannu Tai Dynodedig ar gyfer Pobl Hŷn fod yn haws ei ddeall a chytunodd y Swyddogion perthnasol y byddent yn gwneud hynny. Cytunwyd ychwanegu'r Sector Gwirfoddol at y rhestr yng nghwestiwn 3 o'r Holiadur ynglŷn ag Effaith Tai ar Iechyd ynghyd â chwestiwn ynglŷn â Theulu / Gofalwyr. Cytunodd y Swyddog y byddai crynodeb o'r polisi yn cael ei gynnwys.

Yn y cyfarfod ar 30 Mawrth 2016, daeth y Cyfarwyddwr Strategol Gofal, Amddiffyn a Ffordd o Fyw; Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Chomisiynu a Phennaeth y Gwasanaethau i Deuluoedd a Phlant i'r cyfarfod i roi adroddiad ynghylch yr Achos Busnes ar gyfer Trawsnewid y Gwasanaethau Cymdeithasol. Esboniodd Carys James mai'r cyd-destun i waith PwC oedd yr angen i nodi arbedion effeithlonrwydd o fewn y gwasanaeth er mwyn sicrhau arbedion ariannol ac aeth ymlaen i sôn am y prif elfennau o ailgynllunio'r gwasanaeth a oedd ei angen er mwyn trawsnewid y Gwasanaethau Cymdeithasol yn unol â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Esboniodd Mrs James fod yn rhaid rhoi'r Ddeddf ar waith yn llawn o fewn 2 flynedd. Hefyd nododd y Cyfarwyddwr Strategol Gofal, Amddiffyn a Ffordd o Fyw fod opsiynau eraill er mwyn cael arbedion cyllidebol wedi eu hystyried. Wrth ymateb i gwestiynau, nodwyd bod yr holl ddeddfwriaeth ynghylch oedolion wedi ei diddymu yng Nghymru ar wahân i'r rhai hynny sy'n delio ag iechyd meddwl a galluedd meddyliol ynghyd â'r holl ddeddfwriaeth ynghylch plant, ar wahân i adran 47 y Ddeddf. Roedd hyn yn debyg i Loegr lle'r oedd y Ddeddf Gofal eisoes ar waith. Gofynnwyd i'r Aelodau gytuno â'r canlynol a'i argymhell i'r Cabinet:

1. Bwrw ymlaen â'r prosiectau penodedig, gan gynnwys ymgysylltu ac ymgynghori'n llawn â rhanddeiliaid a staff ynghylch y newidiadau sy'n ofynnol;
2. Penodi pobl i nifer o swyddi allweddol er mwyn cyflawni'r trawsnewid angenrheidiol.

Gofynnwyd hefyd i'r Aelodau nodi Offeryn Sgrinio'r Asesiad Effaith Integredig ac effaith y newidiadau arfaethedig ar y Nodweddion Gwarchodedig o ran cydraddoldeb.

Ar ôl ystyried yr opsiynau a roddwyd, daeth y Pwyllgor i'r casgliadau canlynol:

1. Talu ffioedd clir i gartrefi gofal yn lle rhai crynswth:

Ar hyn o bryd rydyn ni'n talu ffioedd crynswth i gartrefi gofal, ac yn adennill y costau oddi wrth y cleientiaid sy'n eu defnyddio. Mae'n cymryd cryn amser i staff weinyddu'r drefn hon, a dylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r darparwyr er mwyn i'r Cyngor fedru arbed costau staff.

Mae Aelodau'r Pwyllgor yn argymhell y dylid bwrw ymlaen â'r opsiwn sydd o dan ystyriaeth. Serch hynny, codwyd pryderon ynghylch a fyddai'r opsiwn yn gost effeithiol ac a fyddai modd cyflawni'r arbedion a awgrymir.

2. Gwasanaethau Dydd

Mae'r hyn sydd o dan sylw yn cynnwys:

a) *Cadw'r gwasanaeth o ddydd Llun i ddydd Gwener ond lleihau'r oriau i 10am - 2.30pm;*

b) *Agor am bedwar diwrnod yr wythnos;*

c) *Cwtogi'r amser a gaiff ei dreulio gyda'r cleientiaid: gostwng nifer y diwrnodau mewn pecyn gofal yn raddol drwy adolygu'n ystyriol, a medru lleihau niferoedd staff yn y pen draw;*

d) *Trosglwyddo'r gwasanaeth i ddarparwr allanol;*

e) *Dadgomisiynu'r gwasanaethau presennol wrth annog mentrau cymdeithasol i ymgymryd â gwaith am dâl a gwaith gwirfoddol.*

Mae Aelodau'r Pwyllgor yn argymhell y dylid bwrw ymlaen â'r opsiynau a ffefrir sydd o dan ystyriaeth (a + b uchod), ar yr amod bod yr holl opsiynau eraill a amlinellir hefyd yn cael eu hystyried yn y dyfodol.

4. Oedolion Priodol

Mae gofyn buddsoddi i ehangu'r cynllun gwirfoddoli sydd eisoes ar waith yn y Gwasanaeth Ataliol Cyfiawnder Ieuencid, efallai gan drosglwyddo rheolaeth weithredol dros y cynllun i'r sector gwirfoddol a fyddai'n ariannu hynny drwy grant. Gellid arbed llawer iawn o amser staff.

Mae Aelodau'r Pwyllgor yn cytuno â'r argymhelliad i fwrw ymlaen â'r opsiynau sydd o dan ystyriaeth, gan gynnwys ymgysylltu â'r rhanddeiliaid i ymchwilio i'r posibilrwydd o weld sefydliad gwirfoddol yn ymgymryd â'r rôl hon. Mae'r Aelodau hefyd yn awgrymu y dylai hyn fod yn gyfrifoldeb i Gomisiynydd yr Heddlu.

5.4 Ymweld â chleientiaid deirgwaith yn lle pedair gwaith

Dywed y darparwyr fod nifer o gleientiaid yn cael ymweliad gofal cartref bedair gwaith y dydd, ac nad yw hynny o fudd iddynt. Felly dylid adolygu'r drefn ac ymweld â'r bobl hyn deirgwaith y dydd, lle mae modd eu cadw'n ddiogel yn y cartref.

Mae'r Aelodau'n cefnogi'r argymhelliad y dylid cefnogi unigolion yn eu cartrefi ac mai'r unigolyn ddylai ddewis a fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu'n well mewn Cartref Preswyl. Mae'r dogfennau a ddarparwyd i'r Pwyllgor yn cymharu Ceredigion â Merthyr. Mae Aelodau'r Pwyllgor o'r farn bod y gymhariaeth hon yn annheg am mai Sir wledig yw Ceredigion. Dylid cymharu siroedd sy'n debyg i'w gilydd. Mae'r Pwyllgor yn dymuno cael sicrwydd y byddai'r cleientiaid yn derbyn yr un lefel o ofal. Hefyd, penderfyniad yr unigolyn fyddai symud i Gartref Preswyl.

5. Trosglwyddo Gofal Cartref Drud

Mae llawer o gleientiaid yn derbyn o leiaf 30 awr yr wythnos o ofal yn y cartref. Gellid sicrhau gwell cydbwysedd rhwng bodloni eu hanghenion a rheoli costau drwy symud rhai cleientiaid i ofal preswyl (cyflwynir y cyfle hwn er gwybodaeth, ond ni chaiff ei ystyried yn fudd penodedig).

Mae Aelodau'r Pwyllgor yn cytuno y dylid tynnu'r opsiwn hwn yn ôl.

6 a 7. Plant a Theuluoedd ac Oedolion – datblygu dull gweithredu newydd

Mae modd symleiddio'r dulliau gweithredu yn gyffredinol a'u gwneud yn fwy effeithiol. Bydd amrywiaeth o is-brosiectau yn ategu hyn, gan gynnwys Gwella'r Pwynt Mynediad Sengl, y Gynghrair Ataliaeth wedi'i Dargedu, a Rheoli Perfformiad.

Mae Aelodau'r Pwyllgor yn cytuno y dylid ymchwilio ymhellach i'r opsiwn hwn oherwydd codwyd pryderon a fyddai modd cyflawni'r targed arbedion. Pwysleisiodd y Pwyllgor pa mor bwysig oedd rhoi'r system DEWIS ar waith.

8. Gweithwyr yn darparu gofal fesul dau

Mae achosion lle mae gweithwyr yn darparu gofal fesul dau yn digwydd yn amlach yng Ngheredigion ar gyfartaledd na'r unman arall yn y Deyrnas Gyfunol. Ar sail gwybodaeth yn deillio o brosiectau eraill, amcangyfrifir y gellid gostwng y gwariant 25% drwy weithredu prosiect Gofalwyr Sengl ym meysydd Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a Diogelwch.

Mae Aelodau'r Pwyllgor yn cytuno y dylid ymchwilio ymhellach i'r opsiwn hwn yn amodol ar adolygu pob achos yn unigol.

9. Cynyddu incwm Cartrefi Gofal y Cyngor

Mae angen cyngor cyfreithiol cyn ystyried yr opsiwn hwn.

10. Monitro electronig

Mae'r Cynghorau hynny sydd wedi dechrau monitro galwadau'n electronig wedi sylwi bod gwahaniaeth o tua 20% rhwng yr oriau a gomisiynwyd a'r oriau a ddarparwyd mewn gwirionedd (hynny yw, mae'r oriau a ddarparwyd yn llai na'r hyn a gomisiynwyd).

Mae Aelodau'r Pwyllgor yn cytuno y dylid ymchwilio i'r opsiwn hwn, ar yr amod bod y gweithwyr sy'n cael eu talu lleiaf yn cael eu hamddiffyn.

11. Ailalluogi preswyl

Ffordd arall o lenwi lleoedd gwag mewn cartrefi gofal – gellid defnyddio'r gwelyau at ddibenion ailalluogi am 4-6 wythnos ar y tro, fel gwasanaeth ataliol/ymyrraeth gynnar.

Mae Aelodau'r Pwyllgor yn cytuno y dylid ymchwilio ymhellach i'r opsiwn hwn.

12. Gofal Cartref

Adolygu'r taliadau i ddarparwyr presennol, yn enwedig felly o ran cyfraddau costau teithio.

Mae Aelodau'r Pwyllgor yn cytuno y dylid ymchwilio ymhellach i'r opsiwn hwn.

13. Gofal Preswyl

Adolygu'r drefn o ran oedolion ag anghenion cymhleth fel y gellir deall yr anghenion hynny a'u rheoli, a dod o hyd i gyfleoedd i leihau gwariant.

Mae Aelodau'r Pwyllgor yn cytuno y dylid ymchwilio ymhellach i'r opsiwn hwn.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor felly y dylid argymhell y canlynol i'r Cabinet, yn amodol ar yr argymhellion uchod:

1. Bwrw ymlaen â'r prosiectau a nodwyd, gan gynnwys ymgysylltu ac ymgynghori'n llawn â'r rhanddeiliaid a'r staff ynghylch y newidiadau a fydd angen eu gwneud; a
2. Phenodi pobl i nifer o swyddi allweddol er mwyn sicrhau bod y trawsnewid yn digwydd.

Daeth Angela Lodwick, Prif Arbenigwr CAMHS a Gwasanaethau Therapi Seicolegol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i un o'r cyfarfodydd i roi cyflwyniad am Wasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a'r Glasoed yng Nghymru. Rhoddwyd trosolwg o'r gwahaniaeth rhwng CAMHS a CAMHS Arbenigol. Mae CAMHS Arbenigol yn darparu gofal emosiynol ac iechyd meddwl i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd gydag anghenion iechyd meddwl cymhleth, difrifol a/neu barhaus ar draws Gwasanaethau Iechyd Meddwl Sylfaenol ac Eilaidd. Mae'r pedwar tîm ardal wedi eu lleoli yng Ngheredigion, Caerfyrddin, Llanelli a Sir Benfro. Amlygwyd llwyddiannau, heriau a

chyfleoedd a nodwyd bod gan y cyfan rôl i chwarae o ran Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ac nad cylch gwaith y Bwrdd Iechyd mohono'n unig. Diolchodd y Cadeirydd a'r Aelodau i Angela Lodwick am ei chyflwyniad diddorol ac am ddod i'r cyfarfod.

Daeth David Pick, Pennaeth y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i'r un cyfarfod i roi cyflwyniad ar y newidiadau yn y Ddeddfwriaeth Iechyd Meddwl a gwybodaeth am y cyllid ychwanegol o £8 miliwn y flwyddyn ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion yng Nghymru a'r gyfran o'r arian a gaiff ei wario yng Ngheredigion. Diolchodd y Cadeirydd a'r Aelodau i Mr Pick am ei gyflwyniad diddorol ac am ddod i'r cyfarfod.

Daeth Huw Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Ffordd o Fyw a Darryl Evans, Pennaeth Lles Addysgol i'r cyfarfod i roi cyflwyniad am adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch 'Cyflawni â Llai – Gwasanaethau Hamdden. Amlygodd Huw Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Ffordd o Fyw, y prif ganfyddiadau a'r argymhellion o'r adroddiad. Nododd sefyllfa'r Cyngor a threfniadau gwasanaeth Ceredigion Actif mewn perthynas ag Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Rhoddodd Darryl Evans, Pennaeth Lles Addysgol, gyflwyniad am ymateb y Gwasanaethau Hamdden i argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru ac amlygodd y cynnydd yn y defnydd a wneir o ganolfannau hamdden y Sir a'r canlyniadau cadarnhaol. Yn dilyn trafodaeth, awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor yn y dyfodol gael adroddiad bob chwe mis gan y gwasanaeth ynglŷn â'r perfformiad ariannol.

Sefydlwyd Cyd-weithgor Craffu anffurfiol yn ystod y cyfnod adrodd hwn rhwng Cyngor Sir Powys, Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ceredigion er mwyn craffu ar waith Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd Canolbarth Cymru yn dilyn argymhelliad yr Athro Marcus Longley yn ei Adroddiad i Lywodraeth Cymru ynghylch Astudiaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru. Awgrymwyd y byddai tri cynrychiolydd o bob awdurdod yn briodol ar gyfer y grŵp. Byddai pob awdurdod yn gwneud ei drefniadau ei hun o ran anfon aelodau i'r cyd-weithgor. Cytunodd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach Cyngor Sir Ceredigion mai cynrychiolwyr Ceredigion fyddai'r Cadeirydd, y Cynghorydd John Lumley, yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Peter Evans a'r Cadeirydd blaenorol, y Cynghorydd Alun Lloyd Jones. Rôl y Cyd-weithgor Craffu yw edrych ar ddarpariaeth gwasanaethau iechyd yng Nghanolbarth Cymru a materion sy'n effeithio ar bobl sy'n byw yn y Siroedd perthnasol. Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio darpariaeth y gwasanaeth iechyd, gofyn cwestiynau ynghylch sut mae penderfyniadau wedi cael eu gwneud, ystyried a ellir cyflwyno gwelliannau i'r gwasanaeth a gwneud argymhellion i'r perwyl hwn. Mae'r Gweithgor wedi cwrdd ddwywaith hyd yma a bydd yn parhau i gwrdd yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ar ddeuddeg achlysur yn ystod blwyddyn 2015/2016.

Materion allweddol a ystyriwyd:

Ar ddechrau blwyddyn y Cyngor, ystyriwyd yr adroddiad ynghylch datblygu Blaenraglenni Gwaith Trosolwg a Chraffu. Cafodd y Flaenraglen Waith ei monitro a'i diweddarau ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor fel eitem sefydlog ar bob agenda.

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ynghylch Achosion Busnes PwC gan roi sylw penodol i'r cyfle a nodwyd yn y cynllun busnes i'r Gwasanaeth Gofal Plant a Gwybodaeth i Deuluoedd godi tâl am y gweithgareddau hyfforddi a ddarperir gan y Cyngor. Byddai hyn yn golygu y byddai modd adfer mwy o'r gost. Mae'r gwasanaeth yn darparu rhaglen hyfforddi flynyddol ym maes Cymorth Cyntaf, Hylendid Bwyd ac Amddiffyn Plant gan ei bod yn ofynnol i'r holl staff gofal plant cofrestredig gael hyfforddiant i ddiweddarau'u sgiliau bob tair blynedd. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnal cynhadledd flynyddol i ddarparu cyfres o weithdai ynghylch anghenion ychwanegol. Yn y gorffennol, mae'r gweithdai hyn wedi trafod awtistiaeth, chwarae synhwyraidd a chwarae cynhwysol ymhlith testunau eraill. Cytunodd y Pwyllgor i fwrw ymlaen â'r ymgynghori ynghylch y bwriad i godi tâl am y gweithgareddau hyfforddi.

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, ystyriwyd adroddiad arall mewn cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor ac argymhellwyd i'r Cabinet y dylai gyflwyno tâl o £10 am y gweithgareddau hyfforddi.

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Grŵp Gweithredol Plant a Phobl Ifanc y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar gyfer 2014-15. Nodwyd y dylid parhau i fonitro gordewdra ymysg plant a phobl ifanc yn rheolaidd.

Ystyriwyd adroddiad ynglŷn â monitro cynnydd ac effeithiolrwydd Cynllun Gweithredu'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant. Cafodd y cynnydd a wnaed o ran rhoi'r cynllun ar waith ei nodi. Bu i'r Pwyllgor nodi'r problemau a wynebai'r Awdurdodau Lleol wrth iddynt gyflawni eu dyletswydd o ran sicrhau bod digon o ofal plant ar gael. Gwnaeth y Pwyllgor hefyd gadarnhau ei fod yn cefnogi'r syniad o archwilio'r posibilïadau o gymryd rhan yn y prosiect PaCE a fyddai'n cryfhau cynaliadwyedd gofal plant.

Amlinellwyd gwaith Theatr Felinfach, a oedd yn cynnwys darparu cyfleoedd cyfranogi cymunedol a hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg, mewn adroddiad a gafodd ei ystyried gan y Pwyllgor.

Rhodddwyd cyflwyniad am ddata perfformiad haf 2015 a gwnaeth y Pwyllgor nodi'r cynnydd ym mherfformiad y Gwasanaethau Dysgu a oedd yn cynnwys gwell perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen - roedd canran y disgyblion a oedd yn sicrhau'r deilliant disgwylidig yn y Gymraeg ynghyd â'r Saesneg a Mathemateg wedi cynyddu. Llwyddwyd i gael canran uchel yn neilliant 5 a 6 o ran datblygiad personol a chymdeithasol. Yng Nghyfnod Allweddol 2, bu cynnydd da yn y Dangosydd Pynciau Craidd. Bu cynnydd da hefyd ym Mathemateg, Gwyddoniaeth, Cymraeg a Saesneg Lefel 5. Nododd y Pwyllgor yr heriau yng Nghyfnod Allweddol 4 sef y gwahaniaethau o ran perfformiad o fewn ysgolion a rhwng ysgolion, perfformiad disgyblion Prydau Ysgol am Ddim (lefel 2+) a'r TGAU newydd ar gyfer y disgyblion a oedd ym mlwyddyn 10 ar yr adeg honno.

Ystyriwyd Adroddiad Donaldson ar y Cwricwlwm a Datblygiad Proffesiynol Athrawon (Y Fargen Newydd). Nodau'r cwricwlwm yw y bydd pob plentyn a pherson ifanc:

- i. Yn ddysgwyr galluog ac uchelgeisiol sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.
- ii. Yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.
- iii. Yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.

Cytunodd y Pwyllgor i fonitro'r newidiadau a ddaw yn sgil yr adroddiad.

Cafodd penderfyniad y Cabinet ynglŷn â'r ddarpariaeth addysg yn Ysgol Gynradd Cwmpadarn i'r dyfodol ei alw i mewn gan Aelodau'r Pwyllgor. Mewn cyfarfod arbennig, ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a'r wybodaeth a roddwyd. Yn dilyn pleidlais gofrestrdig, cytunodd y Pwyllgor â phenderfyniad y Cabinet sef:

- (i) Cefnogi'r cynnig i derfynu'r addysg yn Ysgol Gynradd Gymunedol Cwmpadarn ar 31 Awst 2016; a
- (ii) Cymeradwyo cynnwys yr Hysbysiad Statudol a'i gyhoeddi

Cynhaliwyd cyfarfod arbennig i ystyried a thrafod y senarios posibl o ran y gyllideb. Roedd yn ofynnol i'r Gwasanaethau Dysgu gyfrannu at arbedion effeithlonrwydd y Cyngor sef £24 miliwn dros y tair blynedd nesaf. Cafwyd trafodaethau ar y meysydd canlynol:

- Adolygiad o'r Uned Cyfeirio Disgyblion;
- Adolygiad o Ardal Dyffryn Aeron
- Cronfeydd wrth gefn yr Ysgolion
- Toriadau Tameidiog ar gyllidebau
- ERW a gwelliannau i ysgolion
- Gwasanaethau cerddoriaeth
- Gwasanaethau leuenctid
- Hyfforddiant Ceredigion
- Dysgu Bro
- Darpariaeth addysg 16+

Croesawodd yr Aelodau y cyfle i roi mewnbwn ar y cynigion.

Ddiwedd yr hydref, rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor ynglŷn â'r sefyllfa bresennol o ran y system ddi-arian ar gyfer cinio ysgol. Cafodd yr Aelodau wybod fod disgwyl i'r system gael ei threialu yn Ysgol Gynradd Penrhyncoch a bod system debyg wedi'i phrynu ar gyfer yr Ysgol Bro Teifi newydd. Ni fyddai'r system benodol hon ond yn addas ar gyfer cinio ysgol, byddai modd ei defnyddio hefyd ar gyfer costau eraill mewn ysgolion fel prynu gwisg ysgol. Cynigiodd y Swyddogion hyrwyddo'r system yn yr ysgolion.

Y mis Ebrill canlynol, cafodd yr Aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran y system ddi-arian mewn ysgolion. Cytunodd yr Aelodau i'r canlynol: cefnogi'r ysgolion uwchradd i symud ymlaen â rhoi'r systemau hyn ar waith gan nodi y byddai Ysgolion Penglais, Aberteifi a Bro Teifi yn barod i ddefnyddio'r systemau ym mis Medi 2016. Byddai Cyrff Llywodraethu pob ysgol yn ystyried pa system sy'n addas ar gyfer eu hysgolion. Roedd disgwyl y byddai yna oedi o ran cynllun peilot yr ysgolion cynradd er mwyn aros am benderfyniadau'r ysgolion uwchradd ynglŷn â chyflenwyr. Byddai'r broses o gyflwyno hyn mewn rhagor o ysgolion cynradd yn cael ei hadolygu fel rhan o'r adolygiad arlwy, er mwyn ystyried y costau o ran caffael, y cymorth a'r feddalwedd a byddai angen hefyd ystyried y gost ychwanegol sy'n gysylltiedig â chostau'r trafodion.

Cyflwynwyd gwybodaeth am Berfformiad Disgyblion o ran TGAU a Lefel A fel y gallai'r Pwyllgor ei hystyried a'i nodi.

Cyflwynwyd Cynllun Busnes ERW a'r cynnydd a wnaed o gymharu â Blaenoriaethau'r Cynllun Busnes a chawsant eu hystyried gan y Pwyllgor. Roedd angen i bob un o'r chwe Awdurdod Lleol a oedd yn perthyn i ERW gadarnhau'r Cynllun drwy'r broses ddemocrataidd.

Ar ôl gwerthusiad allanol gan Grant Thornton a oedd yn argymhell datblygu 6 amcan allweddol, ystyriwyd adroddiad am bolisi NEET Ceredigion a'r cynnydd a wnaed o ran argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru / Grant Thornton. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r cynnydd a oedd yn cael ei gynnal o ran canlyniadau ar gyfer pobl ifanc 16-24 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Roedd yr Aelodau'n fodlon â'r cynnydd lleol a wnaed o gymharu ag argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru (Grant Thornton). Cytunodd y Pwyllgor argymhell y canlynol i'r Cabinet:

- i. Ysgrifennu llythyr at yr Adran Gwaith a Phensiynau'n amlinellu siom y Pwyllgor am y ffaith eu bod wedi gwrthod cytuno ar brotocolau/prosesau rhannu gwybodaeth (Cenedlaethol).
- ii. Archwilio cyfleoedd i gynnig profiad gwaith i NEETs Ceredigion o fewn y Cyngor.

Yn gynnar yn 2016, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad a oedd wedi'i gyflwyno'n flaenorol i'r Cabinet ynglŷn â'r cynigon i wneud arbedion ar y gyllideb ar gyfer

2016/17. Ar yr adeg honno, roedd yr arbedion a glustnodwyd oddeutu £8.5 miliwn. Bu i'r Pwyllgor argymhell i'r Cabinet y dylai gytuno â'r arbedion a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Rhodddwyd diweddariad am broffil Ymgynghorwyr Her Ceredigion a Data a dadansoddiad o'r Categori Cenedlaethol.

Ystyriwyd adroddiad y Swyddog Craffu a Safonau ynglŷn â'r Ffrwd Waith Safonau ac Ysgolion yn Monitro Safonau Ysgolion, ac yn dilyn newidiadau, cymeradwywyd Cylch Gorchwyl y Ffrwd Waith.

Ystyriwyd yr adroddiad ynglŷn â Chanlyniadau Arolwg Canfyddiadau'r Penaethiaid a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am y gefnogaeth yr oedd y Gwasanaethau Dysgu yn ei darparu i Benaethiaid Ceredigion. Mae'r arolwg a ddisberthir ymysg penaeithiaid bob dwy flynedd yn seiliedig ar fframwaith arolygu Estyn.

Fel rhan o'r Polisi Adolygu Ysgolion, ac yn dilyn adolygiad o'r ysgolion yn Ardal Aberystwyth, cyflwynwyd adroddiad ynglŷn ag adolygu'r ddarpariaeth addysg yn Ardal Aberaeron fel y gellid ei ystyried. Cyflwynwyd tri opsiwn gerbron y Pwyllgor, sef:

- i. Parhau â'r sefyllfa bresennol o 10 ysgol yn nalgylch Aberaeron.
- ii. Cau Ysgol Cilcennin (sydd â'r nifer lleiaf o ddisgyblion a'r canran uchaf o lefydd gwag).
- iii. Sefydlu ysgol ardal newydd yn Nyffryn Aeron ar Safle Canolfan Addysg Broffesiynol Felin-fach (ar gyfer disgyblion Ciliau Parc, Cilcennin, Dihewyd a Felin-fach).
- iv. Adeiladu ysgol ardal newydd yn Nyffryn Aeron ar safle canolog (ar gyfer disgyblion Ciliau Parc, Cilcennin, Dihewyd a Felin-fach).

Cytunodd y Pwyllgor i beidio â gwneud argymhelliad i'r Cabinet oherwydd diffyg gwybodaeth yn yr adroddiad a diffyg ymgysylltu â'r gymuned. Cytunodd y Pwyllgor y dylid ymgynghori â'r gymuned cyn ystyried yr opsiynau arfaethedig. Ar ôl hynny, cytunodd y Cabinet i fwrw ymlaen ag ymgynghori â'r pedair cymuned dan sylw ynglŷn ag opsiwn iii uchod.

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ar Ganlyniadau Ymgynghoriad Cludiant Ysgol/Coleg i'r Cartref Ôl 16 a Dyrannu Seddi Gwag. Roedd adolygiad wedi'i gynnal gan fod swm o oddeutu £500,000 wedi ei nodi'n arbediad posib. Byddai tâl o £390 y disgybl y flwyddyn yn cael ei gyflwyno ar gyfer pob myfyriwr ôl 16 i bob sefydliad addysgol ac ar gyfer disgyblion sy'n manteisio ar sedd wag. Ar ôl ystyried yr adroddiad, cytunodd y Pwyllgor argymhell y canlynol i'r Cabinet:

- (i) Gwrthod y cynnig i gyflwyno tâl gostyngol o £390 y flwyddyn.
- (ii) Cymeradwyo'r cynnig i gyflwyno tâl o £390 y flwyddyn y disgybl i bawb sy'n manteisio ar ddarpariaeth y seddi gwag

Cytunodd y Cabinet â'r argymhellion.

Ffrydiau Gwaith

Sefydlodd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu bedair ffrwd waith sef Safonau Mewn Ysgolion; Anghenion Dysgu Ychwanegol, Cynhwysiant a Lles; Ymgysylltu leuenctid ac Addysg Barhaus a Moderneiddio'r Seilwaith. Mae'r ffrydiau gwaith yn eu lle i godi ymwybyddiaeth, at ddibenion hyfforddi ac er mwyn nodi agweddau y mae angen rhagor o graffu arnynt fel rhan o'r broses o gynllunio'r flaenraglen waith. Mae trefniadau ar waith i gynnal cyfarfodydd yn y flwyddyn fwrdeistrefol newydd.

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar naw achlysur yn ystod blwyddyn 2015/2016.

Materion allweddol a ystyriwyd.

Ar ddechrau blwyddyn y Cyngor, ystyriwyd yr adroddiad ynghylch datblygu Blaenraglenni Gwaith Trosolwg a Chraffu. Cafodd y Flaenraglen Waith ei monitro a'i diweddarau ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor fel eitem sefydlog ar bob agenda.

Ystyriodd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus Achosion Busnes PwC fel y'i cytunwyd gan y Cabinet. Cytunodd y Pwyllgor â'r argymhellion canlynol:

- a. Hawliau Tramwy Cefn Gwlad - bwrw ymlaen â'r ymgynghoriad ar y cynnydd mewn ffioedd.
- b. Gwyro Hawliau Tramwy - bwrw ymlaen â'r ymgynghoriad ar y cynnydd mewn ffioedd.
- c. Taliadau cosb a Hepgor Ffioedd parcio - bwrw ymlaen â'r ymgynghoriad ar y cynnydd mewn ffioedd
- d. Ffioedd Mynwentydd - bwrw ymlaen â'r ymgynghoriad ar y cynnydd mewn ffioedd.
- e. Meysydd Parcio Tymor Byr a Thymor Hir - bydd hyn yn cael ei dynnu allan o Achosion Busnes PwC am fod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus yn cynnal adolygiad gorchwyl a gorffen o ffioedd parcio cerbydau yn y Sir.
- f. Casglu Gwastraff - domestig - bwrw ymlaen â'r ymgynghoriad ar gynnydd mewn ffioedd ar wahân i'r biobagiau ar gyfer y cadï cegin oherwydd gallai hyn gael effaith negyddol ar ailgylchu a threth tirlenwi.
- g. Biniau gwastraff bwyd - tynnu allan y bwriad i gyflwyno ffi os bydd angen biniau gwastraff bwyd neu gadi gegin newydd o'r achosion busnes.
- h. Casglu Gwastraff - Masnachol - bwrw ymlaen â'r ymgynghoriad ar y cynnydd mewn ffioedd.
- i. Ffioedd Gwaith Stryd - ymgynghori ynghlŷn â chynnydd mewn ffioedd ar wahân ar gyfer archwiliadau ar hap ac archwiliadau diffygion yr oedd angen ymchwilio ymhellach iddynt o ran gallu'r Cyngor i godi ffioedd.
- j. Ffioedd Angori Masnachol - bwrw ymlaen â'r ymgynghoriad ar y cynnydd mewn ffioedd.
- k. Cau ffyrdd dros dro - Tynnu 'Adran Digwyddiadau Arbennig 16A RTRA 2004' ac 'Adran Digwyddiadau Arbennig 21A TPCA 1847 o Achosion Busnes PwC oherwydd effaith negyddol posib hyn ar yr economi lleol. Bwrw ymlaen â'r ymgynghoriad ar y cynnydd mewn ffioedd ar gyfer ffyrdd sy'n cael eu cau

mwy na 5 diwrnod (drwy orchymyn); llai na 5 niwrnod (drwy hysbysiad) ac mewn Argyfwng.

- I. Cyfleusterau Cyhoeddus - bwrw ymlaen â'r ymgynghoriad ar atal taliadau i fusnesau lleol ar gyfer darparu cyfleusterau cyhoeddus.

Cyflwynwyd argymhellion a oedd yn adlewyrchu'r uchod gerbron y Cabinet. Cytunodd y Cabinet i ystyried argymhellion y Pwyllgor fel rhan o'r broses ymgynghori.

Ar ôl y cyfnod ymgynghori ynghylch yr uchod, ystyriodd y Pwyllgor yr achosion busnes drafft a oedd wedi'u diwygio i gynnwys y data cymharol a ddefnyddiwyd i nodi'r cynigion cyn yr ymgynghoriad. Cafwyd 308 o ymatebion. Yn dilyn y drafodaeth, cytunodd y Pwyllgor â'r argymhellion canlynol:

1. Hawliau Tramwy Cefn Gwlad

Cynyddu'r ffioedd ar gyfer yr ystod bresennol o wasanaethau y codir amdanynt 20%.

2. Gwyo hawliau tramwy

- a. Gwyo hawliau tramwy

Cadw'r ffi bresennol

- b. Gwyo hawliau tramwy dros dro (llai na 5 diwrnod)

Cynyddu'r ffi i'r ffi gyfartalog a feincnodwyd

- c. Gwyo hawliau tramwy dros dro (mwy na 5 diwrnod)

Cynyddu'r ffi i'r ffi gyfartalog a feincnodwyd

3. Taliadau cosb a thaliadau hepgoriadau parcio

- a. Tâl cosb am dramgwyddau lefel is

Cynyddu'r ffi i'r ffi uchaf a feincnodwyd

- b. Tâl cosb am dramgwyddau lefel is os caiff ei dalu o fewn 14 diwrnod

Cynyddu'r ffi i'r ffi uchaf a feincnodwyd

- c. Ffi i wneud cais am hepgoriad parcio

Cadw'r ffi bresennol

- d. Ffi i wneud cais am hepgoriad parcio a'r ffi am bob cerbyd

Cynyddu'r ffi i'r ffi gyfartalog a feincnodwyd

4. Ffioedd mynwentydd

- a. Claddu mewn bedd gromennog

- b. Cadw'r ffi bresennol

- c. Hawl neilltuedig i gladdu

Cynyddu'r ffi i £300

- d. Claddedigaeth gyntaf

Cadw'r ffi bresennol

- e. Gweddillion wedi'u hamlosgi

Cynyddu'r ffi i'r ffi gyfartalog a feincnodwyd

- f. Cost ychwanegol angladdau sy'n digwydd tu allan i oriau gwaith arferol

Cynyddu'r ffi i'r ffi gyfartalog a feincnodwyd

- g. Hawl i godi meini coffa a cherrig beddau

Cadw'r ffi bresennol

- h. Arysgrif ychwanegol fesul carreg fedd

Cynyddu'r ffi i'r ffi gyfartalog a feincnodwyd

5. Casglu gwastraff - domestig

- a. Eitemau y byddech chi'n mynd â nhw gyda chi pe baech yn symud tŷ, hyd at chwe eitem

Cynyddu'r ffi i £40

- b. Gwastraff Gardd Gellir prynu bagiau o Swyddfeydd Taliadau'r Cyngor

Cadw'r ffi bresennol

- c. Bagiau Gwastraff Du Gellir prynu bagiau o Swyddfeydd Taliadau'r Cyngor

Cynyddu'r ffi i £2

- d. Bin Compostio 330 litr

Cynyddu'r ffi i £40

- e. Casgen ddŵr 180 litr

Cynyddu'r ffi i'r ffi gyfartalog a feincnodwyd

6. Casglu gwastraff - Masnachol

- a. Bin olwynion gwastraff bwyd 140 litr (cwsmeriaid masnachol ac aelwydydd y codir tâl arnynt yn unig)

Cynyddu'r ffi i £30

- b. Casgliadau masnachol ac aelwydydd y codir tâl arnynt - Bagiau gwastraff masnachol, gweddilliol (oren) fesul bag

Cadw'r ffi bresennol

- c. Casgliadau masnachol ac aelwydydd y codir tâl arnynt - Gwastraff masnachol gweddilliol - bin 240 litr - tâl casglu yn unig

Cynyddu'r ffi i £15

- d. Casgliadau masnachol ac aelwydydd y codir tâl arnynt - Bagiau ailgylchu gwastraff masnachol (lelog) fesul bag

Cynyddu'r ffi i £2.50

7. Ffioedd gwaith stryd

- a. Un Tŷ

Cynyddu'r ffi i £350

- b. Amaethyddol / Garddwriaethol

Cynyddu'r ffi i £350

- c. Trwydded Gwaith Stryd

Cynyddu'r ffi i'r ffi gyfartalog a feincnodwyd

- d. Mynediad i Gerbydau
Cynyddu'r ffi i'r ffi gyfartalog a feincnodwyd
- e. Gollwng deunyddiau ar briffordd
Cynyddu'r ffi i'r ffi gyfartalog a feincnodwyd
- f. Cloddio priffordd gyhoeddus - Sgipiau (4 wythnos)
Cynyddu'r ffi i £50
- g. Cloddio priffordd gyhoeddus - Sgaffaldiau (4 wythnos)
Cadw'r ffi bresennol

8. Ffioedd angori masnachol
Cadw'r ffi bresennol

9. Ffioedd cau ffyrdd dros dro
- a. Mwy na 5 diwrnod (drwy orchymyn)
Cynyddu'r ffi i'r ffi gyfartalog a feincnodwyd
 - b. Llai na 5 diwrnod (drwy hysbysiad)
Cynyddu'r ffi i'r ffi gyfartalog a feincnodwyd
 - c. Argyfwng
Cynyddu'r ffi i'r ffi gyfartalog a feincnodwyd

10. Cyfleusterau cyhoeddus
Cyfleusterau Cyhoeddus - rhoi'r gorau i dalu £5,500 a roddir ar hyn o bryd i fusnesau lleol am ddarparu cyfleusterau cyhoeddus.

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ynglŷn â'r Gwasanaethau Arlwygo o fewn y Sir. Roedd yr adroddiad yn cynwys gwybodaeth am sut oedd y gwasanaeth yn bwriadu gwneud arbedion, gwybodaeth am yr incwm a sefyllfa'r gyllideb o ran ffreutur Penmorfa a Chanolfan Rheidol, cynlluniau at y dyfodol, a lleihau ar nifer y ceginau sy'n gwneud bwyd mewn ysgolion unigol. Ar ôl ystyried y mater, cytunodd y Pwyllgor i nodi'r wybodaeth a ddarparwyd ac argymhell i'r Cabinet y dylai'r Cyngor Sir asesu'r holl gyfleoedd ar gyfer gofynion arlwygo yn y dyfodol.

Ystyriodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am adolygu cynlluniau'r Cyngor o ran casglu gwastraff o garreg y drws. Roedd yr adolygiad, a gynhaliwyd gan yr ymgynghorwyr technegol AMEC, yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Roedd y gwasanaeth yn ystyried defnyddio cerbyd â thair adran er mwyn darparu casgliad wythnosol ar gyfer plastig a metelau, papur a cherbyd, a gwastraff bwyd. Byddai cerbyd RCV â chorff rhanedig yn casglu gwydr a gwastraff gweddilliol bob pythefnos. Pe byddai'r gwasanaeth yn ariannol hyfyw, nododd yr Aelodau y byddent yn croesawu'r cynnig ynghylch gwasanaeth casglu gwydr o garreg y drws. Byddai angen gwneud rhagor o waith ar yr adolygiad a byddai gwybodaeth yn cael ei rhoi yn un o gyfarfodydd y dyfodol. Nodwyd bod y gwasanaeth cyfredol o gasglu gwastraff gwyrdd a defnyddio capasiti sbâr ar y cerbyd casglu gwastraff

mawr yn profi'n effeithiol. Gallai'r casgliadau gwastraff gwyrdd barhau yn ystod misoedd y gaeaf. Cytunodd yr Aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad ac y dylai'r Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Amgylcheddol, Asedau, Trafnidiaeth a Rheoli Carbon a Chadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus fod yn rhan o'r panel sy'n cytuno ar y mecanwaith gwerthuso a ddefnyddir i benderfynu ar ganfyddiad yr adolygiad ynghylch y cynllun casglu o garreg y drws.

Ystyriodd y Pwyllgor wybodaeth ynglŷn â'r cynnydd hyd yn hyn o ran yr Adolygiad o Derfynau Cyflymder, syniad o'r amserlen debygol ar gyfer cwblhau'r adolygiad a gweithredu'r newidiadau i'r terfynau ar ffyrdd sirol. Cytunodd y Pwyllgor i nodi'r cynnydd o ran yr Adolygiad o Derfynau Cyflymder, a chymeradwyo'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer gweithredu'r Adolygiad o Derfynau Cyflymder yn unol ag argymhellion Llywodraeth Cymru ac argymell i'r Cabinet y dylid rhoi blaenoriaeth i ffyrdd oedd yn mynd heibio ysgolion wrth weithredu canfyddiadau'r Adolygiad o Derfynau Cyflymder.

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad er gwybodaeth am y cynnydd hyd yn hyn o ran archwilio ac adolygu llochesi bws yn y Sir. Roedd yr adroddiad yn nodi, hyd yma, fod yr adolygiad wedi dod o hyd i 251 o lochesi bws, a chredid bod y Cyngor Sir yn berchen ar 63 o blith y rheiny. Byddai'r gwaith o ganfod pwy oedd yn berchen ar weddill y llochesi yn cael ei wneud. Cytunodd yr Aelodau y dylid nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma a chymeradwyo'r camau gweithredu arfaethedig.

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Monitro Blyneddol Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion cyn iddo gael ei gyflwyno gerbron Llywodraeth Cymru. Nid oedd dim problemau mawr wedi'u nodi o ran gweithredu a chyflenwi'r Cynllun Datblygu Lleol. Serch hynny, gallai peidio â chydymffurfio â'r polisiau a'r gweithdrefnau beri trafferthion. Cytunodd yr Aelodau nodi cynnwys Adroddiad Monitro Blyneddol Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2014/15 er gwybodaeth gan nodi'r gofyniad i gyflwyno'r Adroddiad Monitro Blyneddol i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2015.

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ynglŷn â'r gweithgarwch o ran Cartrefi Gwag 2012-15. Roedd y Pwyllgor wedi gofyn am yr adroddiad yn sgil penderfyniad y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu wrth ystyried y Cynllun Gwella, a'r ffaith bod tai gwag wedi'u hepgor o'r Cynllun hwnnw. Rhagwelid cyrraedd y targed o 25 o gartrefi gwag yn cael eu hail-ddefnyddio yn 2015/16. Nododd y Pwyllgor y gweithgarwch a'r llwyddiannau o ran cymryd camau rhagweithiol i ail-ddefnyddio cartrefi gwag dros y tair blynedd diwethaf ac y dylai adnodd swyddogion gael ei gadw ar gyfer targedu a chynyddu rôl bwysig ail-ddefnyddio cartrefi gwag. Cytunodd y Pwyllgor ei fod yn cydnabod mor bwysig oedd y gwaith o ail-ddefnyddio cartrefi gwag, ac y dylid mynd ati fel mater o flaenoriaeth i argymell

i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu y dylid cynnwys hyn yn y Cynllun Gwella Corfforaethol.

Cyflwynwyd Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Drefn Codi Tâl mewn Meysydd Parcio er mwyn i'r Pwyllgor ei ystyried. Cytunodd y Pwyllgor argymhell y canlynol i'r Cabinet:

1. Dylai ffioedd meysydd parcio aros fel y maent a dylai'r Cyngor ganolbwyntio ar wneud y peiriannau'n fwy ymarferol a dibynadwy;
2. Ei gwneud yn haws prynu tocynnau drwy hepgor y gofyn i berchnogion ceir roi rhifau cofrestru eu cerbydau;
3. a. Adolygu'r contract gyda Metric a'r trefniadau ar gyfer cynnal a chadw'r peiriannau;
- b. Dylid cael sicrwydd fod pob peiriant wedi'i raglennu â'r taliadau cywir ar gyfer y maes parcio dan sylw;
- c. Cofnodi problemau a gaiff eu hadrodd yn gywir. Dylid cynnwys data am y diwrnod yr adroddwyd am y broblem, y sawl a adroddodd amdani, ymateb Metric a'r amser a dreuliodd i ddatrys y mater;
4. Hyrwyddo tocynnau tymor;
5. Cynnig y dewis o brynu tocyn blwyddyn gan dalu drwy ddebyd uniongyrchol bob mis;
6. Cael gwared â'r tâl 'ychwanegol' ar gyfer trelars a chodi un swm cyflawn ar gyfer trelar a'r cerbyd sy'n ei dynnu;
7. Newid y cyfnod codi tâl i 11am – 10pm, fel y gall pobl sy'n defnyddio meysydd parcio wrth ymweld â'r dref bob dydd cyn 11am, er enghraifft i brynu llaeth/bara/papurau newydd, wneud hynny heb dalu;
8. Dylid gosod ffioedd fesul 50c i'w gwneud yn haws i bobl;
9. Dechrau codi tâl ar benwythnosau a gwyliau'r banc i barcio ym Mhenmorfa a Min-aeron, Aberaeron;
10. Rhoi arwyddion ar gyfer maes parcio Traeth y De, Aberaeron ar y ffordd fawr;
11. Gwneud maes parcio Ffordd y Gaer, Aberaeron yn un arhosiad byr yn unig;
12. Ymchwilio i'r posibilrwydd o godi tâl yn y 14 o lefydd sydd wrth ymyl y promenâd, Aberaeron;
13. Ystyried a fyddai'n ymarferol codi tâl am barcio ar y darn o dir y tu ôl i Westy'r Harbwr, Aberaeron;
14. Dylid ailddechrau'r drefn dymhorol ar gyfer parcio ar Stryd y Cware, Ceinewydd, gan godi tâl o 1 Mawrth – 31 Hydref;
15. Peidio â gadael i bobl barcio'u carafanau a'u carafanéts ar Stryd y Cware, Ceinewydd;
16. Peidio â gadael i bobl barcio'u carafanau a'u carafanéts ar Ffordd y Gogledd, Aberystwyth;
17. Ymchwilio i'r posibilrwydd o godi tâl am barcio ar Stryd Morgan a'r tu

allan i'r Angel yn Aberteifi;

18. Ymchwilio i'r posibilrwydd o osod systemau talu wrth ymadael ym meysydd parcio mawr y Sir;

19. Dylai fod modd trosglwyddo tocynnau parcio o un maes parcio i'r llall yn yr un dref. Byddai hynny'n annog pobl i fynd i wahanol rannau o'r dref a defnyddio'r cyfleusterau a'r siopau yno;

20. Cyflwyno tocynnau diwrnod sy'n ddilys am 24 awr;

21. Ystyried a yw pob maes parcio unigol yn talu'i ffordd;

22. Ystyried y posibilrwydd o gael darparwr allanol i redeg y meysydd parcio, cynnal a chadw'r peiriannau neu gasglu'r arian os na fydd y gwasanaeth yn gwella o fewn 12 mis.

Gofynnodd yr Aelodau, yn dilyn y cyflwyniad i'r Cabinet, am gyflwyno adroddiad arall ar Feysydd Parcio i'r Pwyllgor o fewn 3 mis ar y cynnydd o ran gweithredu pob argymhelliad a gytunir arnynt.

Yn gynnar yn 2016, ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 19 Ionawr 2016 a oedd yn rhoi gwybodaeth gefndir am yr opsiynau o ran yr arbedion arfaethedig yn 2016/17.

Ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor yr arbedion arfaethedig 2016/17 yn y meysydd gwasanaeth hynny sy'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn. Daeth y Pwyllgor i'r casgliadau canlynol:

1. Technegol – Arbedion i'w pennu drwy arbedion naturiol yn sgil gostyngiad ym mhrisiau ynni a thanwydd, dileu cyllidebau gweddilliol yn sgil newidiadau i'r cymorth a ddarperir ar gyfer Cydwasanaethau a Phartneriaethau, aildrefnu'r trefniadau i gyllido cerbydau, adolygu safonau gwasanaeth a chymorth canlyniadol.

- Gostyngiadau disgwylidig ym mhrisiau ynni a thanwydd yn unol â rhagfynegiadau presennol y farchnad - £75k
- Dileu darpariaeth y gyllideb ar gyfer Cydwasanaethau / Sefydliadau Partner Gweddilliol, gall ddarparu arbedion o £48k;
- Lleihau'r atebolrwydd uniongyrchol dros waredu Gwastraff Peryglus, gellir arbed £15k
- Adolygu'r taliad dewisol sy'n cyfrannu at deithio ar drenau o dan y cynllun Tocynnau Teithio Rhatach - £20k, a chyflwyno targed newid demograffig yn y Gyllideb Cludiant Corfforaethol o £50k yn sgil gostyngiad i'r gweithgarwch sy'n seiliedig ar alw
- Aildrefnu'r trefniadau i gyllido cerbydau, disgwylir y bydd modd arbed £138k heb iddo effeithio'n andwyol ar y gwasanaeth a ddarperir
- Disgwylir i'r buddsoddiad mewn mentrau Buddsoddi i Arbed sicrhau £30k o arbedion refeniw
- Bydd safonau'r gwasanaethau rheng flaen yn cael eu hadolygu e.e. amllder glanhau a gwaith ar benwythnos. Dylai'r canlyniad hefyd effeithio'n anuniongyrchol ar y costau cymorth cysylltiedig a thybir y bydd modd cyrraedd targed cyfun o £228k.

Cytunodd y Pwyllgor â'r arbedion a nodwyd.

2. Perfformiad a'r Economi – Arbedion i'w pennu drwy gynhyrchu incwm ychwanegol

Targed cynhyrchu incwm uwch ar gyfer Polisi Cynllunio - £3k
Cytunodd y Pwyllgor â'r arbedion a nodwyd.

3. Rheoli Datblygu a Rheoli Adeiladu – cynhyrchu mwy o incwm

Cynyddu lefelau'r ffioedd a'r targedau incwm sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaethau Rheoli Datblygu (£15k) a Rheoli Adeiladu (£6k).
Cytunodd y Pwyllgor â'r arbedion a nodwyd.

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ynglŷn ag Ail-lunio Grŵp y Gwasanaethau Technegol. Amlinellwyd y 6 phrif faes o ran ail-lunio'r gwasanaethau er mwyn gwneud yr arbedion angenrheidiol. Roedd y Pwyllgor o'r farn nad oedd digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno felly cytunwyd i gynnal cyfarfod arbennig i drafod ail-lunio'r Gwasanaethau Technegol ymhellach er mwyn sicrhau bod adroddiad llawn ar Achosion Busnes PwC ar gael. Ar ôl ystyried hyn, daeth y Pwyllgor i'r casgliadau canlynol:

1: Gwasanaethau Cwsmeriaid ar ôl corfforaethu

- ❖ Gostwng nifer y staff
- ❖ Arbedion a nodwyd: £188,500
- ❖ Amser i'w weithredu: 15 mis

CYTUNODD y Pwyllgor argymhell i'r Cabinet barhau â'r elfen am y gwasanaethau cwsmeriaid ar ôl corfforaethu sydd yn yr Achos Busnes a'i gweithredu'n llwyddiannus.

2. Uno Timoedd Gwasanaeth (Timoedd Proffesiynol)

- ❖ Gostwng nifer y staff
- ❖ Arbedion a nodwyd: £351,300
- ❖ Amser i'w weithredu: 11 mis

CYTUNODD y Pwyllgor argymhell i'r Cabinet bod staff yn cael 3 mis i gyflwyno cynllun sy'n dangos rhaglen waith o brosiectau sydd ar y gweill sy'n cyflawni'r arbedion ac sy'n sicrhau cyllid yn y dyfodol i'r gwasanaeth ddod yn fwy niwtral o ran costau.

3: Gostyngiad mewn Safonau Gwasanaethau

- ❖ Gostwng nifer y staff - Ailddiffinio Gwasanaethau
- ❖ Arbedion a nodwyd: £357,600
- ❖ Amser i'w weithredu: 12 mis

a) Cynnal a Chadw Tir

CYTUNODD y Pwyllgor argymhell i'r Cabinet y dylid bwrw ymlaen â'r arbedion o ran cynnal a chadw tir.

b) Glanhau Strydoedd

CYTUNODD y Pwyllgor argymell i'r Cabinet y dylid bwrw ymlaen â'r arbedion o ran glanhau strydoedd cyhyd â bod safonau gwasanaethau'n cael eu cynnal i'r safonau uchaf posib o fewn y gyllideb a ddyrannwyd.

Mae 3 a) a b) yn amodol ar graffu'r cynllun gweithredu cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cabinet.

4: Allanoli Gwasanaethau

- ❖ Trosglwyddo Staff - TUPE
- ❖ Arbedion a nodwyd: £1,022,700
- ❖ Amser i'w weithredu: 13 mis

a) Goleuadau Stryd

CYTUNODD y Pwyllgor argymell i'r Cabinet y dylid parhau ag allanoli'r elfen goleuadau stryd sydd yn yr Achos Busnes a'i gweithredu'n llwyddiannus ar yr amod bod o leiaf un person yn cael ei gyflogi gan y Cyngor i oruchwylio goleuadau stryd.

b) Casglu Sbwriel

CYTUNODD y Pwyllgor argymell i'r Cabinet na ddylid bwrw ymlaen ag allanoli'r elfen casglu sbwriel sydd yn yr Achos Busnes.

c) Rheoli Trafnidiaeth a'r Fflyd

CYTUNODD y Pwyllgor argymell i'r Cabinet na ddylid bwrw ymlaen ag allanoli'r elfen rheoli trafndiaeth a'r fflyd sydd yn yr Achos Busnes.

d) Gwasanaethau Parcio

CYTUNODD y Pwyllgor argymell i'r Cabinet bod allanoli'r elfen gwasanaethau parcio'n cael ei dileu o Achos Busnes PwC ac y dylid bwrw ymlaen ag argymhelliad 22 Adolygiad o Feysydd Parcio y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus sef 'archwilio'r opsiwn o allanoli meysydd parcio, cynnal a chadw'r peiriannau neu gasglu arian os nad oes gwelliant yn y gwasanaeth mewn 12 mis.'

5: Adolygu Technoleg

- ❖ Ailhyfforddi staff a set sgiliau newydd
- ❖ Arbedion a nodwyd: £79,500
- ❖ Amser i'w weithredu: 5 mis

CYTUNODD y Pwyllgor argymell i'r Cabinet y dylid parhau â'r elfen am adolygu technoleg sydd yn yr Achos Busnes a'i gweithredu'n llwyddiannus.

6 Rhesymoli Rheolwyr

- ❖ Gostwng nifer y staff
- ❖ Arbedion a nodwyd: £538,800
- ❖ Amser i'w weithredu: 8 mis

CYTUNODD y Pwyllgor i weithredu'r rhesymoli rheoli cymaint ag y gellir wrth weithredu'r Achos Busnes.

Mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch y trefniant ffioedd gyda PwC a'r broses a gofynnodd am gopïau o'r canlynol

- Cofnodion Bwrdd y Rhaglen;
- Cylch Gorchwyl gweithdy'r Cyngor;
- Cylch Gorchwyl y panel trawsnewid.

Panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol

Mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn mynd i gyfarfodydd y Panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol.

Mae'r fforwm hwn yn caniatáu i aelodau'r Panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol ddod ynghyd i wneud y canlynol:

- cael agwedd holistaidd o berfformiad y Cyngor;
- nodi ac archwilio materion trawsbynciol lefel uchel sy'n effeithio ar fwy nag un maes gwasanaeth e.e. diwygio lles;
- herio perfformiad gwael mewn modd beirniadol; a
- nodi'r cyfleoedd i wella gwasanaethau, y risgiau i'r modd y cyflenwir y gwasanaethau a'r goblygiadau o ran adnoddau.

Mae hyn yn caniatáu i'r Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion nodi pynciau sydd angen i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu roi mwy o sylw iddynt a'u cynnwys ar Flaenraglenni Gwaith y Pwyllgorau.

**Dwynwen Jones, Swyddog Cefnogi Trosolwg a Chraffu
Kay Davies, Swyddog Cefnogi Trosolwg a Chraffu**